

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 338 - 60c
Tachwedd 2015

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Helpu pobl
allan yn
Romania



Tudalen 2

Coginio ar
lefel Prydain
yn Malvern



Tudalen 5

Llysgennad
Iau y
Flwyddyn



Tudalen 26



Dwy gadair y C.Ff.I.



Enillydd Cadair C.Ff.I. Sir Gâr
oedd Luned Jones, Blaenwaun-ganol,
Llanwnnen, aelod o C.Ff.I. Llanllwni.

Endaf Griffiths, Penlanfawr,
Cwmsychpant a enillodd Cadair C.Ff.I.
Ceredigion, aelod o C.Ff.I. Pontsian.

Llongyfarchiadau mawr i chi eich dau a
phob lwc ar lefel Cymru.



Ail-agor Neuadd

Nos Wener Hydref 23ain daeth tyrfa luosog
iawn i'r Neuadd ym mhentref Gorsgoch ar
achlysur ei hail agor wedi'r adnewyddu.

Dadorchuddiwyd plac ar y llwyfan gan
lywyddion y noson, Margaret Davies ac
Elisabeth Stephens sydd â chysylltiadau
agos â'r Neuadd gan mai John Lloyd a'i fab,
Hafod yr Ŵyn a roddodd y tir i godi'r neuadd
yn 1949.

Wedi'r dadorchuddio cyflwynwyd blodau
iddynt gan Elen Sisto a Sapphira Gibbons



Plant lleol yn helpu eraill....




Mae plant Ysgol Cwrtnewydd wedi bod wrthi yn creu bocsys anrhegion Nadolig ar gyfer plant Romania. Cyflwynwyd y bocsys i Richard Burgess a bydd yntau yn mynd â nhw i ben eu taith.



Rhai o ddisgyblion campws cynradd [uchod] a champws hŷn [isod] Ysgol Bro Pedr a ddaeth â bocsys Nadolig i'w danfon i Romania. Diolch i bawb am eu haelioni.



Priodas Dda



Priodwyd Kevin Thomas, gynt o Ardwyn, Cwmann a Christine Croft o Gaint yn ddiweddar ac maent wedi ymgartrefu yn Llanilar.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Trydarodd
[@Clonc360](#)

Hydref 17

Luned Jones
[@CFflllanllwni](#) yn
ennill y gadair yn
Eisteddfod
[@cffisigar](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@ElinCeredigion](#)

Hydref 17

Llongyfarchiade i
[@Cloncyn](#) ar ennill y
Steddfod Ddwl neithiwr.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@lanlloft](#)

Hydref 15

[#ShwmaeSumae](#)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](#)

Hydref 4

Cyngerdd arbennig
yng Nghapel
Panydefaid gyda Chor
Dwynant.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](#)

Hydref 3

Diwrnod Hwyl
llwyddiannus
[@LlanybydderFami](#)
gyda [@abzlove](#)
Llun Kay Davies

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](#) neges
[@RhannonTanlan](#)

Medi 29

Diolch Gwynfor,
Morfudd ac Elma am
drefnu noson
[@Dathlu2015](#).

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Tachwedd a Rhagfyr Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590

e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001

Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922

Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies

Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507

Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238

Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856

Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407

Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynon 493325

Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218

Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239

Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257

Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk

Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855

Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi'r gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy'r i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch lluniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn lluniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Tryweryn ac Aberfan

Rhyw ddiwrnod digon diflas oedd 21 Hydref eleni. Wedi wythnosau o dywydd sych a dymunol, roedd cael y glaw yn dipyn o newid byd. Pathetic fallacy: bydde fy athrawes Saesneg yn browd ohona'i am gofio'r ymadrodd hwnnw, sef natur yn cydymdeimlo â sefyllfa ac emosiwn dyn. Ac yn sicr, roedd hi'n 'pathetic fallacy' yma yng Nghymru ar 21 Hydref, wrth i ni gofio dau ddigwyddiad enbyd yn ein hanes fel cenedl.

Union hanner canrif yn ôl, 21 Hydref 1965, agorwyd argae afon Tryweryn. Yr argae sy'n dystiolaeth ac yn symbol o ormes Lloegr ar Gymru. Cymuned gyfan yn cael ei diwreiddio o Gapel Celyn, ardal amaethyddol Gymraeg a Chymreig yn cael ei boddi er mwyn darparu dŵr i dref Lerpwl – er i ni'n ddiweddarach ddysgu efallai nad oedd argyfwng dŵr ar drigolion y ddinas wedi'r cwblw. Dyma stori Dafydd a Goliath – ond yn wahanol i'r hanesyn yn y Beibl, Goliath y cawr rheibus a enillodd y dydd. Annhegwch y sefyllfa sy'n ein gwneud yn ddig – a gobeithio bod atgoffa'n hunain o'r hyn ddigwyddodd a dysgu'r hanes i genhedlaeth newydd o ieuencid yn peri'r un ymdeimlad o anghyfiawnder.

49 mlynedd yn ôl, 21 Hydref 1966, digwyddodd trychineb ingol, sef y domen lo yn llithro lawr i bentref Aberfan a chladdu Ysgol Pantglas, ugain o dai a ffermdy. Lladdwyd 116 o blant a 28 oedolyn. Does dim modd, a does dim diben, cymharu trychineb Aberfan gyda'r hyn ddigwyddodd yng Nghapel Celyn. Ond yma eto, mae anghyfiawnder, annhegwch a thrachwant y rhai sydd mewn grym yn peri i ni fynd yn grac, wrth i ni sylweddoli y gallai'r drychineb fod wedi'i hosgoi petai mwy o ofal wedi'i roi i'r gwastraff glo a phetai rheolwyr y Bwrdd Glo wedi gwrando ar bryderon pobol leol.

Hanes, meddech chi, yw straeon Capel Celyn ac Aberfan. Un yn gymuned amaethyddol yn y gogledd, y llall yn gwm diwydiannol yn y de. Ie, hanes – ond gwae ni os anghofiwn ni ein hanes ni ein hunain. 'Beth yw adnabod?' holodd Waldo – a'i ateb: 'Cael un gwraidd dan y canghennau'. Ac mae profiadau o'r fath yn ein siapio ni fel Cymry ac yn ein mowldio fel cenedl.

Cloncen

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC



Yn ystod mis Hydref, roedd hi'n braf iawn cael croesawu Nicola Sturgeon, Prif Weinidog yr Alban, i Geredigion wrth iddi ymweld â chynhadledd Plaid Cymru yn Aberystwyth. Dyma'r tro cynta iddi ddod i Geredigion, a chefais gyfle i ddangos rhywfaint o Aberystwyth iddi, ac hefyd i sôn am ein Gwasanaeth Iechyd a'r angen i gadw gwasanaethau'n lleol, a hithau'n parhau i fod â diddordeb mawr ym maes iechyd ers iddi fod yn Weinidog Iechyd yn Llywodraeth yr Alban. Roedd y gynhadledd yn sicr yn un fywiog a chadarnhaol, a da hefyd oedd cael cadarnhad yn ystod y gynhadledd am ddewis Dafydd Llywelyn, y darlithydd criminoleg o Landysul, fel ymgeisydd y Blaid ar gyfer etholiad Comisiynydd Heddlu Dyfed Powys y flwyddyn nesa. Edrychaf ymlaen yn fawr at gydweithio ag ef.

Yn gynharach yn y mis, cefais gyfle i draddodi darlith oedd yn gosod syniadau newydd ar gyfer diwygio gofal i'r henoed a'r rheiny sy'n diodde o dementia. Yn hanesyddol, mae rhaniad rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Os caiff rhywun ddiagnosis cancr, gallant ddisgwyl cael y rhan fwy o'u gofal am ddim, ond nid felly yn achos rhywun â dementia a fyddai o bosib yn talu am ofal am ei fod yn cael ei ddiffinio fel gofal cymdeithasol. Hoffwn weld y rhaniad yma'n diflannu o fewn degawd, fel y medrwn integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn llawn, a sicrhau tegwch i bawb o ran gofal.

O ran tegwch i'r henoed, mae ymgyrch 'Wythnos Fawr Arbed Ynni' Cyngor Ar Bopeth yn un sy'n haeddu sylw, a da oedd cael croesawu'r mudiad i Aberteifi ar gyfer eu lansiad. Amcan yr ymgyrch yw rhoi cymorth i bobl, yn enwedig pobl oedranus, i siopa am y fargen orau ar danwydd, gan gynnwys helpu'r rhai niferus sydd oddi ar y grid nwy i gael pris teg trwy gynlluniau cyd-brynu cymunedol. Yn aml dyw pobl ddim yn sylweddoli faint y gallasant ei arbed trwy siopa am y fargen orau, a'r camau bach y gellid eu cymryd i leihau ynni – er lles yr amgylchedd ac er lles poced y Cardi!

CD Corisma



Aelodau Côr Merched Corisma yn lansio eu CD cyntaf 'Cico Soddle' yng Nghanolfan Cwmann. CD o'u hoff ganeuon a recordiwyd gan Talent Cymru yn Neuadd Llanfair Clydogau. Mae'r CD ar werth gan aelodau'r côr am £10 yr un gyda hanner yr arian yn mynd tuag at Ymchwil Cancer Cymru.

TEIARS
HUW LEWIS
TYRES

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

TEIARS
BRECIS
BATERIS
GWACAWYR

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod
01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth
Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk



TACHWEDD

- 5 Noson Tân Gwylt yn y cae tu ôl i'r Llew Du yn Llanybydder rhwng 6.30 a 6.45.
- 6 Clwb Hwyl Ysgol Llanllwni yn cynnal Parti Body Shop yn Talardd, dechrau am 7.00.
- 6 Parti Ewyn, Castell Neidio a Disgo dan 18 oed yn Neuadd Fictoria Llanbed 7-11yh.
- 6 Cyngerdd Mawreddog ym Morlan, Aberystwyth gyda Chôr Meibion Aberystwyth, Côr Synergy, Y Fenni a Phlant Ysgol Padarn Sant, Aberystwyth am 7.30y.h. Tocynnau yn £5
- 8 Cwrdd Diolchgarwch Ysgol Sul Noddfa am 5.00y.h.
- 10 Cyngerdd Pigion Eisteddfod C.Ff.I. Llanwenog yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch am 7.30yh.
- 14 Reslo yn Neuadd Fictoria Llanbed am 7.30yh.
- 17 Cymdeithas Hanes Llambod yn Hen Neuadd y Coleg am 7.30 yh.
- 18 Clwb Trafod Llyfrau yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch am 7.30yh. Trafod y gyfrol Plu, gan Caryl Lewis.
- 20 Cyngerdd yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers yng nghwmni Côr Glannau Ystwyth o dan arweiniad Delyth Hopkins Evans. Llywydd y noson fydd Mrs Awena Williams, Glanrhyd, Crugybar.
- 21 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yng Nghanolfan Celfyddydau, Aberystwyth.
- 22 Gwasanaeth Undebol yng Nghapel Caeronnen, Cellan am 3.00y.p.
- 22 Oedfa Deuluol yn Noddfa am 5.00y.h.
- 23 Trip Merched Y Wawr, Llanybydder i Theatr Felinfach i weld Cwmni Bara Caws yn perfformio 'Difa'.
- 23 Derbyn newyddion CLONC.
- 23 Bingo Nadolig yn nhafarn y Talardd Llanllwni, am 8yh. Elw tuag at Eglwys Llanllwni.
- 24 Ysgol Feithrin Llanybydder yn cynnal noson Bingo yn y Clwb Rygbi am 8.00y.h.
- 26 Lansio llyfr 'Hunangofiant Hen Labwr' gan Tommy Williams, Nant fach, Alltyblaca yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch rhwng 6.00-8.00y.h. Dewch am sgwrs a phaned.
- 27 Ffair Grefftau Flynyddol Pumsaint 2 - 6y.h. Elw at Gofal Cancr y Fron Cymru.
- 28 Ffair Grefftau Flynyddol Pumsaint 10yb - 4yp. Elw at Gofal Cancr y Fron Cymru.
- 28 Ffair Nadolig yn Neuadd Gelfyddydau Coleg Llanbed 12 - 4yp.
- 28 Cymdeithas Kodály Cymru yn cynnal Cyngerdd yn Neuadd Bro Fama, Ffarmers.
- 28 Clive Edwards yn lansio ei CD newydd yng nghwmni Wil Tân a Bois y Rhedyn yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth am 8.00y.h. Elw at Wardiau Ystwyth & Ceredig Bronglais a'r Uned Dialysis.
- 29 Oedfa Unedig Bedyddwyr cylch Gogledd Teifi - Bethel Silian am 10.30y.b.
- 29 Oedfa'r Urdd yn Noddfa am 5.00y.p.

RHAGFYR

- 2 Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00y.p. Dewch i helpu eich Papur Bro.
- 2 Cyngerdd a Marchnad Mentergarwch Nadolig Ysgol Llanwnnen yn Eglwys Llanwnnen am 6.30yh.
- 5 Cyngerdd gan Bois y Frenni am 7.30y.h. yn Neuadd y Coroniad Pumsaint. Manylion 01558 685439.
- 5 Meithrin ac Ysgol Llanllwni yn cynnal Ffair Nadolig rhwng 10 o'r gloch a 2, yn Ysgol Llanllwni.
- 13 Carolau Undebol Plwyf Cellan yng Nghapel Caeronnen.
- 13 Ffair Nadolig yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch 11.00yb nes 4.00yp.
- 14 Merched y Wawr, Llanybydder yn canu carolau yn yr Anedd a Chwm Aur.
- 19 Parti Nadolig Pwyllgor Pentref Llanybydder yng Ngwesty'r Llew Du, Llanybydder.
- 19 Carol, Cerdd a Chân Eglwys San Pedr Llambod am 7.00y.h.
- 20 Gwasanaeth Carolau a Chyngerdd Blynnyddol yn Neuadd Bro Fama, Ffarmers.
- 24 Gwasanaeth Golau Cannwyll yn Hen Gapel Llwynrhydowen am 9.00y.h.
- 25 Oedfa Nadolig yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant am 9.00y.b. Croeso cynnes i bawb.
- 25 Oedfa yn Noddfa am 9.30y.b.
- 27 Gwasanaeth Golau Cannwyll yng Nghapel Caeronnen, Cellan.

CHWEFROR

- 15 - 19 Wythnos Cystadleuaeth Drama C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 26 Gŵyl Offerynnol yr Urdd yn Theatr Felinfach.

MAWRTH

- 2 Eisteddfod yr Urdd [Cynradd ac Uwchradd] Cylch Aeron yn Theatr Felinfach.
- 3 Eisteddfod yr Urdd [Cynradd ac Uwchradd] Cylch Llambod yn Ysgol Bro Pedr.
- 4 Dawns Dewis Swyddogion newydd C.Ff.I. Ceredigion.
- 7 Noson o Ddramau yn Theatr Felinfach gan Bwyllgor Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen.
- 11 Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd ym Mhafiliwn Bont.
- 12 Eisteddfod Rhanbarth Cynradd ym Mhafiliwn Bont.
- 30 Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen.



Taith feicio
noddedig a drefnwyd
gan deulu Ceulan,
Llanbed, ar 6ed o
Fedi o Aberystwyth
i Gors Caron,
Tregaron. (17
milltir). Diolch
i'r holl feicwyr,
cefnogwyr ac i
bawb a gyfrannodd.
Codwyd swm o
£2,700 at Barnardos
Cymru.

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Llongyfarchiadau i Hanna Thomas a Gwion Evans ar gael eu dewis i fod yn Llysgenhadon Efydd. Bydd eu dyletswydd yn cynnwys cymryd clwb amser cinio, helpu mewn gweithgareddau ymarfer corff ac annog plant i fod yn heini.

Cynhaliwyd Prynhawn Coffi ddiwedd mis Medi er mwyn codi arian at elusen Macmillan. Diolch i bawb a gefnogodd gan godi swm o £110.06 tuag at yr elusen.

Bu pob plentyn yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Cwrdd Diolchgarwch yr Eglwys ar y 1af o Hydref. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan y Ficer Suzie Bale am anghenion a gofal am anifeiliaid anwes. Hoffwn ddiolch i Mrs Eirlys Owen am gyfeirio i'r plant.

Bu dosbarth y Cyfnod Sylfaen a'r Ysgol Feithrin yn Neuadd Bro Pedr er mwyn ymuno yn hwyl y 'Sbri-di-ri'. Bu'r plant yn canu a dawnsio gyda Gwenda Owen gan gwrdd â Mr Urdd, Dewin a phypedau bywiog eraill.

Treuliodd Thomas, Gwion, Mathew, Tomasz a Connor bum diwrnod ym Mhentywyn cyn gwyliau'r hanner tymor gan fwynhau mas draw.

Mae'r Ysgol Feithrin a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol wrthi'n trefnu Ffair Nadolig a fydd yn cael ei chynnal dydd Sadwrn, Rhagfyr 5ed yn yr ysgol. Fe fydd yna amrywiaeth o stondinau – cyfle gwych i wneud eich siopa Nadolig! Croeso cynnes i bawb ddod rhwng 10 o'r gloch a 2 o'r gloch.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Hydref:

£10 – Rhys ac Eifion Jones, Tirbanal, Llanymddyfri

£5 – Tom Harries, Castle View, Llanllwni

£5 – Myra Morris, 3 Rhydybont, Llanybydder.

C.F.F.I. Llanllwni

Wel, am fis prysur arall yn llawn ymarferion ar gyfer Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc ar yr 17eg o Hydref. Ond heb os, roedd pob ymarfer yn werth yr ymdrech oherwydd fe wnaeth Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni gipio'r darian gwaith cartref a dod yn ail yn yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau mawr i bawb a wnaeth gystadlu a fel aelodau hoffem ddweud diolch yn fawr iawn wrth yr holl hyfforddwyr am roi o'u hamser i ni eleni eto. Sdim dowt ma uchafbwynt yr eisteddfod eleni oedd gweld Luned Jones yn sefyll ar ei thraed ar ganiad y corn yn ystod seremoni'r cadeirio! Daeth bloedd anfarwol wrth aelodau a chefnogwyr Llanllwni wrth ei gweld yn cael ei harwain i'r llwyfan i'w chadeirio. Hoffem estyn llongyfarchiadau gwresog iddi am ennill cystadleuaeth

y stori fer a chipio'r gadair am y tro cyntaf erioed yn hanes clwb Llanllwni! Go lew ti a dal ati!

Dyma restr o ganlyniadau'r diwrnod:

Gwaith Cartref: Stori fer ac enillydd y gadair : 1af – Luned Jones.

Creu eitem o lechen :



1af – Meryl Davies, 2il – Siriol Howells, 3ydd – Ceris Howells.

Ffotograffiaeth : 2il – Luned Jones.

Adroddiad i'r wasg : 2il – Sioned Howells. **Limrig :** 2il – Ceris Howells.

Cyfansoddi sgets : 3ydd – Owain Davies

Cystadlaethau Llwyfan: Llefaru dan 16 : 1af – Sioned Howells. **Parti Llefaru :** 1af.



Dawnsio Disgo : 1af – Bois

Llanllwni. **Meimio i gerddoriaeth**

: 3ydd. **Monolog :** 3ydd – Owain Davies. **Canu Emyr dan 26 :** 3ydd – Sioned Howells. **Deuawd Doniol :** 3ydd – Ifor a Hefin.

80 oed

Pen-blwydd hapus i Mair Jones, Brynsiriol a Sheila Lewis, Haulfryn a ddathlodd eu pen-blwyddi yn 80 oed yn ystod mis Hydref.

Gobeithio bod y ddwy ohonoch wedi mwynhau eich diwrnod.

Cylch Meithrin Llanllwni

Ar y 12fed o Hydref daeth Edupets i ymweld â'r Cylch. Roedd y plant wedi mwynhau dal a theimlo nifer



Hoffem longyfarch Sara Thomas, Ceiros Lewis a Jac Jones, C.F.F.I. Llanllwni am ennill cystadleuaeth goginio ar lefel genedlaethol yn Malvern yn ddiweddar, tipyn o gamp! Danfonwn ein llongyfarchiadau mwyaf i chi a braf dweud mai Ceiros ei hun wnaeth hyfforddi'r tîm ar gyfer y gystadleuaeth. Ma'n amlwg bo nhw wedi grondo peth arnat ti! Da iawn eich tri am ddod yn ôl â chanmoliaeth uchel i Gymru, i Sir Gâr, ond yn bwysicach, i Lanllwni. Edrychwn mlân at gael arddangosfa a chael blasu'r cwbl mewn noson yn y clwb yn glou.

o wahanol anifeiliaid fel cwningen, neidr, mochyn cwta, madfall, a rhoi bath i'r crwbân.

Y thema ar ôl hanner tymor bydd yr Hydref.

Cynhelir Ffair Nadolig dydd Sadwrn 5ed o Ragfyr yn ysgol Llanllwni am 10 yb i 2 yp. Cyfle i brynu anrhegion unigryw ar gyfer y Nadolig. Croeso cynnes i bawb! Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i'r Cyngor Bro am ei rhodd. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi yr haelioni yn fawr iawn.

Cylch Ti a Fi

Digwyddiadau Mis Tachwedd: 6ed Canu a stori gyda Menter Iaith. 13eg - Plant mewn angen - gwisgo lan.

20fed - Apêl Bocs Sgidiau.

27ain - Ymweliad gan therapydd lleferydd.

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob bore dydd Gwener am 9:30yb hyd 11:30yb yn Ysgol Llanllwni.

Croeso i rieni, gofawyr, mam-gus a thad-cus ddod gyda'u plant i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a chael cyfle i gael sgwrs dros banded.

Sant Luc Llanllwni

Undeb y Mamau - Cafwyd gwasanaeth cymun yng nghyfarfod mis Hydref. I ddilyn, bu trafod y rhaglen dros banded o de.

Bydd noson Bingo flynyddol yr Eglwys yn Nhafarn y Talardd, Llanllwni nos Lun Tachwedd 23ain i ddechrau am 8 o'r gloch.

Yn ddiweddar yn Sant Luc priodwyd Jody Taylor a Steven Williams o Gwyddgrug. Llongyfarchiadau a phob bendith i'r ddau.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanllwni

Cawsom ddiwrnod prysur iawn nôl ym mis Gorffennaf pan wnaeth

aelodau'r Cyngor Bro ofyn i ni fel cymdeithas drefnu Diwrnod Hwyl ar eu rhan yng nghae chwarae'r pentref yn agoriad swyddogol i'r adnoddau newydd sydd wedi eu gosod yn y parc yn ddiweddar.

Roedd hyn yn gyfle gwych a daethon ni, yr Ysgol Feithrin a'r Clwb Ffermwyr Ifanc

at ein gilydd a threfnu diwrnod llwyddiannus. Roedd y cae chwarae dan ei sang a'r tywydd ar ein hochor gyda llond lle o blant wedi gwisgo mewn gwisg ffansi. Diolch i Dewi Davies, Glanafon a Owain Davies, Gwndwn am feirniadu. Diolchwn i Mr a Mrs Melvyn Rees, Llyswawr, ein llywyddion am y dydd, am eu rhodd hael iawn ac am araith Morfudd. Diolchwn i'r Cyngor Bro am rannu arian mynediad rhyngom a diolch i bawb a fuodd yn ein cefnogi.

Dydd Sul 12fed o Orffennaf cynhaliwyd Helfa Drysor a diolch i Arwel a Donna Thomas am drefnu. Dechreuodd yr helfa yn Talardd, ac aethom ar daith ddiffr iawn o amgylch Maesycrugiau, Capel Dewi, Cwmsychpant, Llanybydder a nôl am bryd o fwyd blasus iawn yn Talardd, diolch i John a Ann. Diolch i bawb a gefnogodd. Enillwyr eleni oedd Kevin, Carys a'r merched, Trysor. Edrychwn ymlaen at un flwyddyn nesaf.

Mi fydd y Clwb Hwyl yn cynnal parti Body Shop yn Talardd ar y 6ed o Dachwedd am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Mae'r Ysgol Feithrin a'r Ysgol wedi dod at ei gilydd a threfnu Ffair Nadolig a fydd yn cael ei chynnal yn yr Ysgol ar y 5ed o Ragfyr, o 10 o'r gloch hyd 2. Bydd llondlle o stondinau gan fasnachwyr lleol a bydd Siôn Corn yn galw i'n gweld. Cyfle da i wneud bach o siopa Nadolig. Llywydd y dydd fydd Mrs Wendy Smith, cyn athrawes yn yr ysgol. Dewch yn llw i gefnogi.

Ysgol Carreg Hirfaen

Llongyfarchiadau i holl blant yr ysgol a gafodd lwyddiant yn Ffair Ram a Sioe Cao a Llanycrwys yn ddiweddar.

Rydym wedi ail ddechrau gyda chlwb yr Urdd ac mae'r plant wedi bod yn brysur yn trafod pa weithgareddau y byddent yn hoffi eu gwneud dros y flwyddyn. Cawsom lawer o syniadau hyfryd. Dechreuom trwy gael noson chwaraeon lle cafodd y plant gyfle i ddatblygu eu sgiliau peli. Bu'r ysgol yn ffodus iawn i gael Rhydian o'r Urdd allan i gynnal noson bingo yn yr ysgol. Mwynhaodd y plant mas draw. Diolch i Rhydian am ddod atom.

Ddydd Mawrth, 13eg o Hydref cynhaliwyd diwrnod coch, gwyn a gwyrdd yn yr ysgol i godi arian ar gyfer Urdd, Cylch Llanbed. Bu'r plant yn gwisgo dillad coch, gwyn a gwyrdd a galwodd Mr Urdd heibio.

Mae plant yr ysgol wedi darparu blychau Nadolig i'w danfon yn anrhegion i blant llai ffodus yn Romania.

Mae plant blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn brysur iawn yr hanner tymor yma yn astudio cestyll o gwmpas Cymru. Yn rhan o'r gwaith aethom ar daith o gwmpas Castell Dinefwr yn Llandeilo. Cafodd y plant gyfle i weld sioe a cherdded o gwmpas y castell. Cawsom lawer o hwyl yn dychmygu byw mewn castell mor foethus. Dyma adroddiad gan Llyr Ifan am ein taith.

Ar y 23ain o Fedi, cafodd blant blwyddyn 5 a 6 y cyfle i ymweld â Chapel Bethel, Parc y Rhos i weld arteffactau a lluniau a arddangoswyd yn y Capel i ddathlu 175 blynedd. Bu Mr Alun Jones yn annerch y plant ac yn trafod yr hanes. Diolch iddo am roi ei amser.

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr ysgol yng Nghapel Caersalem, Parc y Rhos eleni. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y disgyblion a chafwyd anerchiad hyfryd a phwrpasol gan y Parchedig Jill Thomas. Casglwyd tuag at elusen a gafodd ei dewis gan blant y Cyngor



Ar ddydd Gwener, Medi 11eg aeth ein dosbarth ni i Gastell Dinefwr. Yn gyntaf cawsom hanes am yr Arglwydd Rhys ap Gruffydd. Roedd yr Arglwydd Rhys ap Gruffydd yn byw yn yr Oesoedd Canol. Cymro oedd Rhys ap Gruffydd ac roedd yn brwydro'n galed yn erbyn y Saeson a'r Normaniaid i gadw ein cestyll. Cawsom y cyfle i cerdded lan y mynydd i Gastell Dinefwr. Roedd rhaid i ni gerdded trwy'r goedwig i gyrraedd y castell a rhoddodd Miss Davies amser i ni chwarae yn y goedwig. Ar ôl hynny cawsom y cyfle i gerdded o gwmpas y castell anferthol. Roeddwn yn dychmygu fy mod yn byw yn y castell moethus. Diwrnod bendigedig. Diolch Miss.

Ysgol a chodwyd £55 tuag at elusen Beiciau Gwaed Cymru.

Croeso i Miss Ffion Evans i'n plith i gynorthwyo Miss Davies ym mlwyddyn 3 a 4 ac i Miss Rhian Lewis, athrawes newydd blwyddyn 5 a 6. Mae'r ddwy wedi ymgartrefu'n wych yng nghwmni'r plant a staff yr ysgol.

Braf oedd cael croesawu Eleri, sef ein swyddog heddlu cymunedol i'r ysgol, wrth iddi drafod diogelwch noson Calan Gaeaf a Thân Gwylt gyda holl blant yr ysgol.

Llongyfarchiadau i flwyddyn 5 a 6 am gymryd rhan yn nhwrament Rygbi'r Urdd yng Nghlwb Rygbi Aberaeron. Chwaraeodd y tîm merched 5 gêm i gyd, gyda cheisiadau gan Elen Medi Jones, Jessica Jones a Niomi Carroll. Roedd tîm y bechgyn wedi chwarae gyda tân yn eu boliau trwy gydol y twrament. Er ein bod yn dîm ifanc rydym wedi chwarae yn dda yn erbyn yr ysgolion mawr. Sgoriwyd y ceisiau gan Alex Lewis, Osian Elis Roberts a Sion Aled Evans. Hoffwn roi diolch i Jack Rees am ein hyfforddi yn ystod yr wythnosau diwethaf. Ysgrifennwyd yr adroddiad gan Siôn Aled Evans, Osian Elis Roberts ac Elen Medi Jones.

Gair byr i ddiolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth gyfrannu ac estyn help llaw yn y Bore Coffi a gynhaliwyd ar y 9fed o Hydref yn yr ysgol. Roedd disgyblion blwyddyn 5 a 6 wedi cael diwrnod llwyddiannus ond yn fwy pwysig na dim, fe lwyddom i gasglu £442.04 tuag at elusen benigamp, sef Macmillan. Thema blwyddyn 1 a 2 yr hanner tymor yma yw 'Arch-arwyr.' Mwynhaodd y plant a'r staff ddiwrnod o wisgo fel eu hoff arch-arwyr a chynhaliwyd gweithgareddau amrywiol yn ystod y dydd. Ar y 7fed o Hydref aeth plant y Cyfnod Sylfaen i ganu a dawnsio yng nghwmni Gwenda Owen, Sali Mali a Mr Urdd. Cafwyd llawer o hwyl a sbri.



Bu tîm traws gwlad yr ysgol yn llwyddiannus iawn ym mhencampwriaeth Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar. Roedd dros gant o blant yn cystadlu ym mhob ras. Gyda rhedwyr cryf bl. 5, cafodd y merched lwyddiant arbennig,



gyda Faye Jones yn cipio'r ail safle ar ôl brwydro am y safle cyntaf hyd ddiwedd y ras a Gwenllian Llwyd yn cipio'r 7fed safle. Rheddodd Jessica Jones ras wych a llwyddodd y tair i gipio'r ail safle fel tîm. Cipiodd Osian Elis Roberts y nawfed safle. Hefyd yn llwyddo i orffen y ras mewn amser a safle gwych roedd Casi Gregson, Ryan Jones, Ronnie Evans, Gary Jones, Rhys Harry Evans, Roland Weedon, Llyr Ifan Davies ac Elen Jones.

Diolch

Dymuna Gethin, Llys Penparc ddiolch am y cardiau a'r dymuniadau adeg ei ganlyniadau ac wrth fynd i'r brifysgol.



Rhai aelodau C.F.F.I. Cwmann yn cyflwyno sic o £2000 sef yr arian a godwyd llynnedd at Glefyd Motor Neurone.



Côr Dwynant dan arweiniad Eirian a Meinir Jones, Cysgod y Pin yn perfformio mewn cyngerdd yng Nghapel Pantydefaid, Prengwyn yn ddiweddar.

Cwmann



Sefydliad y Merched Coedmor

Ar y Sed o Hydref Clwb Rygbi Llambled oedd ein man cyfarfod ar gyfer y Cinio Blynnyddol i ddathlu'r ffaith bod Sefydliad y Merched yn ganmlwydd oed. Wedi ein croesawu aeth Noelene Davies, ein llywydd, ymlaen i gyfeirio at farwolaeth annisgwyl un o'n haelodau ffyddlon, sef Dilys Godfrey. Cydymdeimlwyd â'i phlant a'u teuluoedd. Cafwyd munud o dawelwch i gofio amdani.

Hefyd, cydymdeimlodd â Helena a Bryn Gregson gan fod Bryn wedi colli ei chwaer yn ddiweddar.

Ar ôl cinio blasus iawn, torrwyd y gacen i ddathlu'r canmlwyddiant gan Noelene ac Avril Williams sydd wedi bod yn aelod o Sefydliad y Merched Coedmor ers ei sefydlu.

Croesawodd Noelene ein gwraig wadd, sef Meinir Howells, cyflwynydd 'Ffermio'. Mae'n dod yn wreiddiol o deulu ffermio yn Nyffryn Tywi, ond yn awr yn briod ac yn ffermio yn Nyffryn Teifi. Er ei bod yn gweithio llawer yn y cyfryngau, dywedodd mai ffermio yw ei hoff beth.

Roedd y capel a bod yn aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc wedi bod yn ddechrau da iddi gan roi hunanhyder i siarad yn gyhoeddus. Yn y Coleg yn Aberystwyth cafodd y cyfle cyntaf i weithio i gwmni teledu Telesgop. Mae wedi bod ynghlwm â sioeau poblogaidd fel 'Y Goets Fawr' a'r 'Sipsi' yn ogystal â Sioe Frenhinol Cymru a Ffermio.

Diolchodd Gwen Jones iddi am noson ddiddorol a chartrefol iawn.

Enillwyd y raffl gan Glesni, Bethan, Avril a Gwen.

Cyn troi am adre, bu cyfarfod busnes byr a hefyd diolchodd Noelene i bawb am eu cyfraniad yn Sioe Ram, yn paratoi a gweini te, ac yn angladd Dilys. Dosbarthwyd coaster llechen i bob aelod i gofio am ganmlwyddiant y Sefydliad a ddechreuodd yn Llanfairpwllgwyngyll.

Cymdeithas Bethel Parcyrrhos

Cafwyd croeso cynnes i dymor newydd dan lywyddiaeth Mrs Glesni Thomas. Talodd Glesni deyrnged i'r diweddar Mrs Dilys Godfrey, un o aelodau mwyaf teyrngar a ffyddlon y Gymdeithas. Un a fu gynt yn llywydd gweithgar a phrysur â gwên ar ei chymdeithasu. Cafwyd munud o dawelwch i gofio Dilys a chydymdeimlwn yn fawr â'r plant a'r wyrion annwyl.

Braf oedd gan Glesni groesawu ffrindiau o Gapeli Esgairdawe a Ffaldybrenin i ymuno â ni a chael croesawu ein gwestai am y noson, sef Mrs Tegwen Morris, Aberystwyth, Cyfarwyddwraig Genedlaethol Merched y Wawr. Braf oedd cael croesawu Tegwen nôl i fro ei mebyd, a dyna bu thema'r noson wrth iddi grynhoi straeon a hanes ei bywyd. Hyfryd bod cyd ddisgyblion ac athrawon yn mwynhau rhannu'r asbri roedd Tegwen yn ei gyflwyno mewn llun a stori. Talwyd y diolchiadau cynhwysfawr gan Eira a diolch i Anne, Eira ac Elsie am y te. Edrych ymlaen at gwis yr ofalaeth y tro nesaf yn Crug-y-bar.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â Rosnie Jones a'r teulu, Cherrypines

ar golli priod a thad sef David Jones; hefyd â theulu Werna ar farwolaeth chwaer Bryn yng Nghaerfyrddin.

Cartref Newydd

Yn ystod y mis symudodd Joan Davies, Hen Swyddfa Bost i 23 Cwrt Deri a chroeso cynnes i deulu newydd sydd wedi ymgartrefu yn 38 Heol Hathren.

Pob dymuniad da i chwi gyd.

Clwb 225 – mis Medi

1. Siân Jones, Bryndolau, Cwmann, 16. 2. Geraint a Meleri Jones, Islwyn, Heol-y-Bont, Llambled, 125. 3. Tomos ac Elen, Felindre Uchaf, Cwmann, 137. 4. Alun Jones, Glanrhyd, Parc-y-rhos, 45. 5. Aneurin Jones, Hathren, Heol-y-Bont, Llambled, 124. 6. Helen Gregson, Werna, Cwmann, 76. 7. Mr a Mrs Kidby, Erwaun, Parc-y-rhos, 190. 8. Helen Davies, Tanyresgair, Cwmann, 84. 9. Donald a Helen Thomas, Ty Hathren, Cwmann, 43. 10. Mrs Muriel Davies, 2 Nantyglyn, Cwmann, 84.

Clwb 225 – mis Hydref

1. Mrs Jean Davies, 5 Heol-y-Maes, Pencarreg, 94. 2. Mr W. Edwards, Ddeunant, Cwmann, 173. 3. Mrs Eluned Evans, 16 Treherbert,

Cwmann, 82. 4. Llewelyn James, d/o/ Phyllis Smith, Llambled, 58. 5. Jeff Douch, 1 Heol-y-Fedw, Cwmann, 62. 6. Eiddig Jones, Gellidewi Uchaf, Cwmann, 88. 7. Siân Jones, Bryndolau, Cwmann, 16. 8. Jenny Bracher, Glyndu, Cwmann, 61. 9. Gwenda Jones, 47 Heol Hathren, Cwmann, 50. 10. Wendy Evans, Parc-y-rhos, Gorsgoch, 214.

Neuadd Sant Iago

Clwb 125 – mis Medi

1. Noel James, Emlyn Cottage, Cwmann, 42. 2. Fiona Jones, Llys Teifi, Cwmann, 52. 3. Marion Roberts, Cyswch, Cwmann, 53. 4. Avril Williams, Y Fedw, Cwmann, 11. 5. Andrea Lewis, Llanygi, 148. 6. Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 68. 7. Dini Hardy, Cwrt Deri, Cwmann, 69.

Neuadd Sant Iago

Clwb 125 – mis Hydref

1. Mr D.J. Evans, Blaenbidernin Isaf, Cwmann, 135. 2. S. Evans, Coed-y-Waun, Parc-y-rhos, 107. 3. E. G. Lloyd, 14 Heol Hathren, Cwmann, 43. 4. Rhian Jones, Hafod Cottage, Cwmann, 29. 5. E. Jones, Cilgell Isaf, Cwmann, 77. 6. M. Miah, Saya Villa, Cwmann, 44. 7. B. Lloyd, Blaenrhysglog, Ffarmers.

Eisteddfodau



Yn 1af yn Canu Emyn dan 16 oed yn Eisteddfod Felinfach oedd Sara Elan Jones, Cwmann.

Cafodd Elan hefyd y drydedd wobwr yn llefaru dan 16 yn Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr. Mae Elan yn aelod o C.Ff.I.Cwmann.



Ianto Jones, Cribyn yn ennill yr Unawd 16-21 oed yn Eisteddfod Felinfach ac enillodd y Canu Emyn a 3ydd yn yr Unawd 21 neu iau yn Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.



Alwena Mair Owen, Llanllwni yn derbyn cwpan yr unawdydd mwyaf addawol dan 12oed wedi iddi ennill yr unawd a'r llefaru 8-10oed yn Eisteddfod Llanarth.

Hefyd, enillodd yr unawd a'r llefaru dan 8 oed ym Mancffosfelen.

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:

Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sdrauca

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gogolofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.
Ac yn golchi duvets.



MiS y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Y pysgod a'r planhigion

Tydw i ddim yn bysgotwr nac yn fab i bysgotwr. Ond mi rydw i'n wŷr i un. Ymhlith yr atgofion cynta' sy geni mae codi Taid yn y car ac yntau newydd fod yn pysgota yn afon Dulas ger Esgairgeiliog a Phantperthog i'r gogledd o Fachynlleth.

Y peth rhyfedd am fy nhaid oedd ei fod o'n bysgotwr mawr – a photsiwr ar un adeg – ond, eto, doedd o ddim yn licio pysgod. O ganlyniad, roedden ni'n aml yn cael y brithyll yr oedd o'n eu dal, a'u blas nhw'n well o wybod mai fo oedd y cyflenwr.

Mi bryson ni dŷ gan bysgotwr hefyd. I lawr yn seler Penynant, mae yna raciau o hyd a oedd wedi eu gosod yno gynta' i ddal gwialenni pysgota ac, yn ôl llawer, mae un o byllau gorau'r ardal led cae oddi wrthon ni.

Yn y blynyddoedd cynnar, roedd hi'n arferol gweld rheseidi o geir wedi parcio ger pen lôn Lowtre er mwyn i'r pysgotwyr gyrraedd yr afon ac roedd yna lwybr clir hyd lan yr afon lle byddai'r pysgotwyr yn mynd.

Bellach, prin ydi'r ceir; yr un mor brin â'r pysgod. Y dydd o'r blaen, roedd gyda ni erthygl yn Golwg yn dangos fod nifer y sewin sy'n cael eu dal yn afon Teifi wedi gostwng i lai na thraean o fewn ychydig tros ddeng mlynedd.

Does dim ond rhaid ichi gerdded hyd lan afon i weld trosoch chi eich hun. Erstalwm, ar noson braf, lonydd, mi fyddai'r dŵr yn gylchoedd byw wrth i'r pysgod godi i lowcio'r pryfed. Ac, yn aml, o dan bont lle'r oedd dyfroedd clir, fe allech chi weld y pysgod yn llonydd yn y dŵr.

Yn blant, roedden ni'n arfer pysgota-dwylo mewn nentydd bychain lle nad oes yna bysgod wedi bod ers blynyddoedd bellach. Ac mae dyfroedd afon Gwryfai yn fy hen ardal i yr un mor ddifywyd â dyfroedd afon Teifi.

Prin y gallwch chi weld y llwybr hyd lan yr afon bellach ac nid dim ond prinder pysgotwyr sy'n gyfrifol am hynny. Bellach, mae yna blanhigyn newydd wedi meddiannu'r glannau, a hwnnw, nid y pysgod, sy'n dechrau gweithio i ffordd i fyny'r nentydd hefyd.

Ar un olwg, mae jac y neidiwr yn flodyn pert, a'i flodyn fel ceg agored a dwy wefus anferth binc uwch ei phen ac otani. Ac mae'n tyfu'n dal a gosgeiddig, yn tyfu llawer gormod ac yn llawer rhy dal hefyd. Mae'r enw Cymraeg yn un da; mae ei hadau o'n gallu neidio pellter i feddiannu ardaloedd newydd.

Mae'n debyg fod y planhigyn wedi cael ei gyflwyno i wledydd Prydain tua 1839 – dau o'r enwau Saesneg arno ydi Indian balsam a Himalayan balsam. Ond dim ond yn ystod y blynyddoedd diwetha' y daeth o'n bla mewn ardaloedd fel Ceredigion.

Y broblem ydi ei fod o'n goresgyn popeth arall. Fel sawl math o flodyn – neu chwynnyn – tebyg, mae o'n gallu byw mewn amodau digon anodd ac yn tagu'r planhigion o'i gwmpas. Ac, fel y byddech chi'n disgwyl, mae o'n gythgiam o anodd ei ddinistrio.

Oes yna gysylltiad rhwng y ddau beth, y pysgod a'r planhigyn? Mae'n siŵr y byddai cerdded cyson gan bysgotwyr hyd lannau'r afon wedi helpu i reoli jac y neidiwr ac mae'r ddau beth yn arwydd o'r ffordd y mae defnydd tir yn effeithio ar fywyd gwylt.

Mae yna bobol llawer mwy gwybodus na fi wedi ceisio esbonio diflaniad yr eog a'r sewin o'n hafonydd ni, a'r esboniadau'n amrywio o ormod o bysgota cyryglau a rhwydi ger aber afon Teifi, i broblemau yn y môr.

Does fawr neb yn amau chwaith bod defnyddio cemegau ym myd amaeth, a chodi mwy o anifeiliaid, wedi cael effaith. A llygredd arall hefyd heb sôn, o bosib, am newid hinsawdd.

Mae eogiaid a sewin yn dod yn ôl i'r afonydd lle dechreuon nhw eu hunain y daith, un o straeon anhygoel byd natur. Mae eu colli nhw'n llawer mwy na cholli blas rhyfeddol eu cig.

Cefn Hafod

Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun– Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238

W.D. Lewis

Maasachwyr Amacchydol

Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill

Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG

Tel: 01570 422540

Fax: 01570 423644

www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn

Broneb Stores

Pumsaint, Llanwrda

Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwdinau

* Arlwyro ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

Hefyd yn Ystafell Weinï cysurus
Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

• Bwyd Priodas

• Bwffe

• Te Angladd

• Digwyddiadau Maes

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 3.00

- Partion pen-blwydd ayb

- Ciniawau - Cyfarfodydd

- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach



Lifft
cyfleus
yn ei le i
fynd lan
llofft

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:

Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford,
Llambled

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Gohebiaeth

BRECHIAD FFLIW

Cyfarchion at darllenwyr CLONC. Hoffwn eich atgoffa am bwysigrwydd cael eich brechiad fflw. Dwi'n gobeithio gyda'ch help y bydd y niferoedd sy'n derbyn y brechiad yn cynyddu a bydd hynny'n arwain at ostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael eu heffeithio gan yr afiechyd. Gall fflw ddatblygu yn niwmonia sy'n beryglus, yn enwedig i bobl hŷn. Gallwch fynd i'ch Meddygfa neu at y Fferylllydd, neu gallaf ddod at eich grŵp i'ch imiwneiddio. Cysylltwch â fi fel Cydlynnydd Imiwneiddio a Brechiadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Buddug.Nelson@wales.nhs.uk

Pentrebach

Diolch

Hoffai Elaine, Dylan a Luned ddiolch am yr holl garedigrwydd a chefnogaeth adeg colli Mary Davies, Awel Teifi yn ddiweddar.

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys; cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:



01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk



Gwobr Cenedlaethol



Mewn seremoni gan y cwmni ceir Volkswagen yn Llundain yn diweddar roedd saith cwmni Prydeinig ymhlith y 100 cwmni Ewropeaidd a wobrwyrwyd am safon eu gwasanaeth i'r cwsmer.

Roedd cwmni Anthony Motors Aberystwyth yn un o'r cwmnïau a gafodd eu gwobrwyo a hynny am y pumed tro yn olynol. Mae'r gwobrau'n cael eu cyflwyno'n flynyddol i gwmnïau sy'n rhoi safon uchel eithriadol o ofal a boddhad i gwsmeriaid.

Yn y llun mae John Milcoy, Llwynteg, Drefach yn derbyn y wobwr gan Mathew Barnham, Pennaeth Adran Datblygu Gwasanaeth Volkswagen UK.

Llangybi a Betws

Hamdden

Cyfarfu yr aelodau ar Hydref 2il yn Ysgol Y Dderi gyda Janet Farrow yn llywyddu. Talwyd teyrnged i'r diweddar lywydd, Dilys Godfrey. Y gŵr gwadd oedd Barry Williams, un o'n haelodau a oedd wedi paratoi cwis diddorol a heriol ar ein cyfer.

Diolchwyd iddo yn gynnes iawn gan y llywydd am roddi amser helaeth i baratoi cwis mor eang a llawn gwybodaeth. Maisie Morgan a Mair Spate fu yn paratoi te i bawb.

Enillwyd y raffl gan Rowena Williams, Maisie Morgan, Barry Williams, Allan Jones, Elizabeth Holgate, Mair Spate ac Alunda Jones.

Cynrychiolydd o Dunbia fydd y gŵr gwadd yn y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 6ed am 2.00y.p. yn Ysgol Y Dderi. Croeso cynnes i aelodau

newydd.

Merched y Wawr Y Dderi

Cyfarfu y gangen ar Hydref 21ain yn Ysgol Y Dderi dan lywyddiaeth Gwyneth Jones. Roedd hon yn noson agored i'r Cyhoedd. Cawsom noson hyfryd a difyr yng nghwmni Aneurin a Terwyn Davies. Sôn am ei waith y bu Aneurin ac am yr atgofion helaeth a oedd ganddo ar ôl gweithio fel swyddog yr A.I. yn ymweld â ffermydd ardal eang iawn am bron i ddeugain mlynedd ac fel yr aeth ati i ysgrifennu llyfr i gofnodi digwyddiadau. Roedd pawb wedi cael boddhad mawr wrth wrando yn astud ar yr hanesion. Diolchwyd iddynt yn gynnes iawn am noson gofiadwy gan Deborah Jones.

Rhoddwyd y Raffl gan Ann Davies ac Eleanor a Gwyneth Evans.

Yr enillwyr oedd Glenys Lloyd, Gwyneth Evans a Roger Hartwell.

I ddiweddu y cyfarfod cafwyd paned fel arfer wedi ei baratoi gan Mary Jones a Mair Spate.

Yn y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 18fed bydd Mrs Rhonwen Thomas yn gwneud arddangosfa goginio ar gyfer Nadolig. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theuluoedd Olmarch Villa ac Olmarch Fawr yn eu profedigaethau. Cydymdeimlir hefyd â'r holl gysylltiadau teuluol a ffrindiau.

Adferiad

Dymunir adferiad buan i Mr Allan Jones, Hengoed sydd wedi bod yn Ysbyty Bronglais. Brysiwch wella.

Clwb Clonc

Tachwedd 2015

£25 rhif 111 :

Fiona Davies,
Llysteifi, Cwmann.

£20 rhif 500 :

Lena Williams,
39 Heol Hathren, Cwmann.

£15 rhif 137 :

Betty Evans,
Bwthyn y Dolau, Llanybydder.

£10 rhif 466 :

Dewi Thomas,
Blaencwmdu, Llanllwni.

£10 rhif 518 :

Rhun Wilson,
Lluest, Llanfihangel-ar-Arth.

£10 rhif 326 :

Megan Jones,
Rhandir, Cwmsychpant.

£5 rhif 445 :

Siriol Thomas,
10 Llys Myrddin, Caerfyrddin.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

			5	1		7
	1			8		2
6				2		
5	2				8	3
		7	3		6	5
9	8				6	4
			2			6
	6		8			3
7			6	9		

Swdocw Hydref:

Llongyfarchiadau i:

Wendy Davies,
Sŵn y Nant,
Felinfach

a diolch i bawb arall
am gystadlu: Avril
Williams, Y Fedw,
Cwmann; Bethan
Prydderch, Tyngrug,
Llanllwni a Bethan
Williams, Neuadd
Fryn, Llanybydder.

2	3	9	4	1	5	8	7	6
5	7	4	8	3	6	1	9	2
8	1	6	2	7	9	5	3	4
1	2	7	6	4	3	9	8	5
4	9	5	7	8	2	3	6	1
3	6	8	9	5	1	2	4	7
9	5	3	1	6	7	4	2	8
6	8	1	3	2	4	7	5	9
7	4	2	5	9	8	6	1	3

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a
Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,

Stryd y Fro, Aberaeron

gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org

Dawns Emporium

Rhoddion Cymraeg
a Phersonol

07818 020907
Drefach, SA40 9SX



dawnsemporium

www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adelidau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant
Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeillid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Conduct Authority

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Pencarreg

Eisteddfota

Llongyfarchiadau i Cerys
Angharad yn yr Eisteddfodau
canlynol:

Eisteddfod Tregaron

Llefaru dan 8 oed - Ail
Canu dan 8 oed - Trydydd
Canu emyn dan 12 oed - Ail

Eisteddfod Gadeiriol Y Tymbl

Unawd 6-8 oed - Trydydd
Llefaru 6 - 8 oed - Trydydd
Canu emyn dan 12 oed - Cyntaf

Eisteddfod Gadeiriol Llanarth

Unawd 6-8 oed - Trydydd
Llefaru 6-8 oed - Trydydd
Canu emyn dan 12 oed - Ail

Eisteddfod Bancffosfelen

Unawd 6-8 oed - Ail
Llefaru 6-8 oed - Ail
Canu emyn dan 12 oed - Trydydd
Bu Cerys hefyd yn llwyddiannus
yn ddiweddar yng ngwrandawiadau
Cwmni Opera Ieuencid Caerfyrddin.
Bydd yn chwarae rhan yn y
cynhyrchiad opera Whistle Down the
Wind gan Richard Taylor a fydd yn
cael ei pherfformio yn ystod hanner
tymor Chwefror 2016 yn Theatr
y Lyric, Caerfyrddin. Bydd yna 6
pherfformiad i gyd.

Alltyblaca

Diolch

Dymuna teulu'r diweddar Jen
Jones, Dolwlff, ddiolch i bawb
a gyfrannodd tuag at nyrsys
Llanybydder a Llambed; daeth y
cyfanswm yn £760.

Diolch hefyd am bob arwydd o
gydymdeimlad a estynnwyd iddynt
yn eu colled.

Cellan

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch
Capel Caeronnen ddydd Sul, Hydref
25ain. Braf oedd gweld nifer wedi
troi allan. Croesawodd y Parch Cen
Llwyd Lena Daniel, Llys Barcud i'n
hannerch yn ystod y gwasanaeth.
Diolch iddi am ei hanerchiad a
diolch hefyd i Meinir Jones-Williams
am gyfeilio.

Os hoffech
gynorthwyo'r
gwirfoddolwyr
gyda'r gwaith o
gynhyrchu'r papur
hwn, croeso i chi
gysylltu ag un o'r
bwrdd busnes.



Colofn Cefn Cwlad

gan Helen Howells

Gwobrau Darganfod Treftadaeth

Dros yr Haf cefais y ffrind o feirniadu prosiectau a oedd wedi cyrraedd
rhestr fer Gwobrau Darganfod Treftadaeth 2015, gwobrau i ddathlu
rhagoriaeth ym maes dehongli treftadaeth dros Brydain ac Iwerddon. Y
Gymdeithas dros Ddehongli Treftadaeth sy'n cynnal y gwobrau yma, a'r
nod yw dathlu dehongliad treftadol ac i rannu, calonogi ac arddangos arfer
da yn y proffesiwn.

Cafodd sawl prosiect o Gymru eu hanrhydeddu yn y seremoni a
gynhaliwyd yn ystod cynhadledd y Gymdeithas ddiwedd mis Hydref.
Cyflwynodd Loyd Grossman, noddwr y Gymdeithas, wobrau i Barc
Cenedlaethol Eryri, CADW a Chymdeithas Aberaeron.

Cerdded gyda'r Rhufeiniaid

Daeth Parc Cenedlaethol Eryri i'r brig gyda'r prosiect 'Cerdded gyda'r
Rhufeiniaid' yn y categori Tirwedd. Prosiect yw hwn sy'n dathlu hanes y
Rhufeiniaid ger y Mynydd Du yn Sir Gâr. Roedd Dyffryn Tywi yn un o
lwybrau pwysig y Rhufeiniaid nôl yn 70AD. Gellir cerdded yn ôl-traed y
milwyr Rhufeinig wrth ymweld â safle 'R Pigwn a Waun-Ddu' sy'n agos at
Gronfa Ddŵr y Wysg. Datblygwyd teithiau clywedol sy'n adrodd storïau'r
milwyr a gellir eu lawr lwytho i ffôn symudol neu ipod. Datblygwyd App
yn ogystal, sy'n dangos llun rhithwir o'r safle yn ystod oes y Rhufeiniaid.
Prosiect sy'n werth ymweld ag ef. Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y
Parc - www.breconbeacons.org/romans

Gweithfeydd Haearn Blaenafon

Derbyniodd CADW'r gil-wobr yn y categori Tirwedd gyda'r prosiect
yma. Gwariwyd miliynau o bunnau yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn
adnewyddu'r safle, sy'n un o Safleoedd Treftadaeth y Byd a ddynodir gan
UNESCO. Bydd rhai ohonoch yn gwybod am y safle os wnaethoch chi
wyllo'r rhaglen 'Coal House' ar BBC Cymru. Datblygir cyfryngau digidol
arloesol i ddatgelu hanes Blaenafon ar y safle, gan gynnwys technoleg
sy'n dod â'r haearn tawdd yn fyw o dan eich traed. Technoleg arloesol
heddiw yn datgelu'r stori am ddulliau arloesol y chwyldro diwydiannol
yng Nghymru. Am ragor o wybodaeth, ewch i - www.cadw.gov.wales/daysout

Stori Aberaeron

Derbyniodd Cymdeithas Aberaeron y gil-wobr yng nghategori
Prosiect Cymunedol y Gwobrau. Prosiect oedd hwn i geisio codi
ymwybyddiaeth y gymuned ac ymwelwyr am hanes y dref. Roedd sawl
elfen i'r prosiect a oedd yn cynnwys ffilm fer, mosaig, arddangosiad,
ac archif o hanes y dref. Crewyd App cerdded a chafodd y Gymdeithas
ei chymeradwyo am yr ymdrechion i gysylltu'r gymuned gyda'i hanes.
Gellir gweld yr arddangosiad yng Nghanolfan Ymwelwyr Aberaeron sy'n
cynnwys jig-so o'r tai lliwgar. Am ragor o wybodaeth, ewch i - www.cymdeithasaberaeron.org

Gobeithio y cewch chi gyfle i ymweld â'r safleoedd yma yn y dyfodol
agos. Cyfle i chi weld a chlywed storïau'r gorffennol, a sylwi pa mor
berthnasol yw rhai o'r gwersi i'n bywydau ni heddiw.

Llanfair Clydogau

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i Ffion
Quan, Sŵn yr Afon am redeg ei mini
marathon gyntaf yng Nghaerdydd
yn ddiweddar a chroesi'r llinell
mewn un awr a phedwar deg tri
munud. Amser ffantastig! Hefyd am
gymryd rhan yn ras y Twin Peaks
yn Aberystwyth i ferched dan ugain
oed a dod yn gyntaf mewn amser da
iawn. Dal ati Ffion, mae pawb yn
prowd dy fod mor dalentog. Wedi
clywed dy fod wedi pasio dy brawf
gyrru hefyd. Byddwn yn edrych mas
amdanat yn dy Fazda bach glas!
Gyrra yn ofalus.

Noson y Band

Ar ôl cael noson yng nghwmni
Band y Golden Geckos beth amser
yn ôl roedd llawer yn y pentref yn
edrych ymlaen i'w clywed unwaith
eto ond yn anffodus cafodd y
noson ei chanslo oherwydd salwch
gwddwg y brif gantores. Gobeithio
y byddwn yn gallu ail drefnu noson
debyg yn fuan eto.

Grŵp Cerdded

Gobeithir trefnu taith gerdded
rhywbryd ym mis Tachwedd.
Cadwch olwg am fanylion yn Siop y
Pentref.

Llanybydder



Swyddogion cangen Llanybydder o Diabetes UK Cymru, Betty Jones, Jack Jenkins a Bet Davies gyda Huw a Bronwen Evans Glantren Fach, cadeiryddion y cyngerdd llwyddiannus iawn a gynhaliwyd yn y Llew Du Llanybydder ar 25 Medi. Yn cymryd rhan yn y cyngerdd roedd Bois ar Wasgar ac aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni. Diolch i Huw a Bronwen am eu rhodd haelionus ac i bawb am gefnogi'r noson. Codwyd £1000 ar y noson. Diolch hefyd i Mr. Mumford ac i staff y Llew Du.

Canolfan Deuluol Llanybydder



Llun o Staff y Ganolfan Deuluol gyda Abz Love a Vicky Fallon.

Cynhaliodd Canolfan Deuluol Llanybydder ddiwrnod hwyl yn y Llew Du Llanybydder Diwrnod Hwyl ar 3ydd o Hydref 2015 er mwyn codi arian i'r ganolfan a chodi ymwybyddiaeth ohoni yn y gymuned.

Roedd y diwrnod yn llawn gweithgareddau hwyl gan gynnwys adloniant ar ffurf castell neidio a chymeriadau plant. Hefyd daeth Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Menter Gorllewin Sir Gâr â stondin yr un i'r digwyddiad.

Roedd dau westai arbennig yno, sef Abz Love (cyn aelod y band 5ive) a'i bartner Vicky Fallon a agorodd y digwyddiad. Y swm a godwyd oedd £1,206.00. Aelodau staff y ganolfan yw Jane Davies (Cydlunydd), Tracey Jones (Arweinydd Chwarae) ac Avril Jones (Gweithiwr Chwarae).

Diolch

Dymuna Elin, Maesgwyn ddiolch am yr holl gardiau, arian, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

Dymuna Myra Morris, Rhydybont ddiolch i'w pherthnasau a'i holl ffrindiau am yr holl anrhegion a cardiau a dderbyniwyd ar ei phen-blwydd arbennig ar Fedi 12fed.

Hefyd, dymuna Dillwyn Gibby, Erwlon ddiolch i bawb am y cardiau ac anrhegion ar achlysur ei ben-blwydd yn 70 oed ym mis Medi.

Ysgol Feithrin

Mae Ysgol Feithrin Llanybydder yn cynnal noson Bingo yng Nghlwb Rygbi, Llanybydder nos Fawrth 24ain o Dachwedd am 8.00 o'r gloch. Croeso i bawb.

Eglwys San Pedr, Llanybydder

Cyfarfod Cyngor yr Eglwys Blwyfol (PCC)

Cynhaliwyd nos Lun 21ain o Fedi 2015. Yn bresennol: Y Parch. Suzy Bale (Cadeirydd); Susan Evans (Warden yr Eglwys); Avril Jones (Trysorydd); Eleri Thomas (Ysgrifenyddes) a Heather Jones. Gwnaethpwyd trefniadau ar gyfer digwyddiadau'r dyfodol.

Taith Gerdded – 14eg Awst 2015

Casglwyd oddeutu £2,200 yn ystod y daith gerdded nodedig. Diolchir i holl drigolion y pentref sydd wedi cyfrannu ac yn enwedig i Mrs Heather Jones; llwyddodd i gasglu'r swm anrhydeddus o £1,057!

Gwasanaeth y Cynhaeaf - Nos Fercher, 30ain o Fedi 2015

Y Parch. Will Strange oedd y gŵr gwadd. Bu iddo gyfeirio at Ddameg yr Heuwr yn ystod ei bregeth bwrpasol ac ystyrlon.

Penderfynwyd cyfrannu'r arian a gasglwyd at Argyfwng y Ffoaduriaid a'r bwyd i Fanc Bwyd Llanbedr Pont Steffan.

Ar ôl y gwasanaeth, mwynhawyd Swper Cynhaeaf yng Ngwesty'r Llew Du, Llanybydder.

Gwasanaeth y Gair

Cynhaliwyd dydd Sul y 18fed o Hydref sef gwasanaeth yn ymwneud â'r cynhaeaf. Kay Davies oedd wrth y llyw. Diolchir i ddisgyblion yr Ysgol Sul am eu gwaith sef Ellie, Elain, Nia a Sasha ac i'r oedolion sef Denise, Vicky, Rhian, Emyr, Steve a Stephen. Mae'r cynhaeaf yn amser i ddweud diolch ac i gydweithio.

Cyfeiriwyd at Matthew Pennod 9: Ad.35-38

Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin; deisyfwch felly ar Arglwydd y cynhaeaf anfon gweithwyr i'w gynhaeaf.

Diolchwyd am fwyd, dillad, cartrefi a ffrindiau – hyd yn oed y ffrindiau sy'n byw'n nreif-caled ein cyfrifiadur!

Gwasanaeth Sul y Cofio

Cynhelir y gwasanaeth ddydd Sul yr 8fed o Dachwedd am 3.30pm yn Eglwys Llanybydder er mwyn cofio am y rhai hynny a fu farw'n ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, yr Ail Rhyfel Byd ac mewn brwydrau terfysgol ers hynny. Croeso i bawb ymuno â ni yn y cofio.

Dymuniadau Gorau

Estynnir dymuniadau gorau at holl aelodau'r Eglwys sydd yn anhwylyd ar hyn o bryd a sydd heb fod yn medru addoli gyda ni cyn amled ag o'r blaen.

Côr Lleisiau'r Werin

Yn ystod yr haf, bu'r côr, fel yr arfer yn canu ar y llwyfan perfformio yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau. Cawsom hwyl ar y gwahanol ganeuon ac yr oedd cynulleidfada wedi ymgynnull i wrando a chymeradwyo. Ar y ffordd adref cawsom bryd o fwyd blasus yng Ngwesty Llety'r Parc, Aberystwyth. Diolch i Granville am siwrne hwylus a diogel.


Nos Wener Hydref 23ain cawsom y fraint o ganu yng nghyngerdd agoriad swyddogol Neuadd yr Hafod, Gorsgoch ar ei newydd wedd. Dyma adeilad hyfryd a fydd yn ddefnyddiol iawn i'r gymuned. Yn cymryd rhan hefyd roedd ysgolion cynradd lleol, aelodau CFfi Llanwenog a pharti llefaru Sarn Helen. Cafwyd noson o lwyr fwynhad.

Ar hyn o bryd yr ydym yn paratoi ar gyfer diddanu mewn Ffair Nadolig ym Mharc Dinefwr, Llandeilo a hefyd mewn gwasanaeth Nadoligaidd yn Eglwys Sant Pedr, Llanybydder.

Cydymdeimlo

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Ann Coughlan, Bryn Newydd a fu farw yn ystod y mis, priod i Leo a mam i James. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

Plant Mewn Angen



Annwyl Olygydd,

Gyda'ch caniatâd hoffwn fanteisio ar y cyfle i atgoffa'r darllenwyr bod diwrnod Apêl Plant Mewn Angen eleni **ddydd Gwener, Tachwedd 13eg**. Byddwn fel tîm yng Nghapel San Tomos, sydd ar y Cwmins o 9.30y.b. tan 6.00y.h. i dderbyn cyfraniadau.

Yn gywir,
Beti a Gorowny Evans

Y Mans,
Stryd Newydd,
Llanbedr,
Ceredigion.
SA48 7AL.
01570 422587

Eisteddfod CFfI Sir Gâr 2015

Dychwelyd i Neuadd San Pedr, Caerfyrddin wnaeth aelodau CFfI Sir Gâr unwaith yn rhagor eleni ar gyfer Eisteddfod flynyddol y Ffermwyr Ifainc a gynhaliwyd nos Wener 9fed o Hydref, nos Wener 16eg o Hydref a'r 17eg o Hydref. Cafwyd cyfoeth o adloniant a'r safon yn uchel iawn fel arfer. CFfI Penybont a gipiodd darian yr Eisteddfod drwy ddod yn fuddugol a hynny am yr ail waith yn olynol. Llongyfarchiadau iddynt hwy ac i CFfI Llangadog a Llanllwni am ddod yn gydradd ail ac felly yn ennill Tarian Nantybwl. Yn ôl i Lanllwni aeth Tarian Elonwy Phillips ar gyfer y gwaith cartref a CFfI Dyffryn Cothi'n ail a CFfI Llangadog yn drydydd.

Yn sicr roedd her gan y beirniaid gyda'r holl gystadlu brwd ond daethant i ben â'r holl waith caled ac mae'r diolch yn fawr iddynt am eu gwasanaeth. Aled Edwards ac Eirian Davies fu wrthi yn y cystadlaethau cerdd, Garry Owen yn y llefaru, Dyfrig Davies yn y sgets, Hilary Davies yn y dawnio disgo, Clare Potter yn y stepio a Geraint Roberts yn y gwaith cartref.

Gwestai yr Eisteddfod ar y nos Wener gyntaf oedd Heulwen Howells o Benybont, y Cyng. Peter a Meinir Hughes Griffiths oedd ein gwesteion ar yr ail nos Wener a'r dydd Sadwrn roedd Tegwen Morris, cyn aelod o Glwb Cwmann. Diolch iddynt oll am eu geiriau o'r llwyfan a hefyd am eu rhoddion hael iawn tuag at gyllid Ffederasiwn y Sir.

Diolch i Geraint Rees am fod yn gyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod unwaith eto eleni a diolch i bawb arall a fu wrthi'n cyfeilio i'r aelodau. Yn ein harwain ni drwy'r cystadlaethau roedd Meinir Howells, Gwawr Lewis, Iestyn Davies, Mared Williams, Carys Thomas a Mathew Jones. Diolch iddynt am eu gwaith ac i Simon Martin a oedd yng ngofal y cymorth cyntaf. Diolch i bawb oedd hefyd yn gweithio y tu cefn i'r llwyfan ac wrth y drws.

Mae ein diolch yn fawr i'n cofiaduron hefyd a oedd yn cadw'r sgoriau, swydd bwysig iawn! Diolch i Jane Morgan, Llinos Jones a Marian Thomas am eich gwaith diflino ac i Llinos Jones oedd yng ngofal y tystysgrifau. Diolch yn fawr i Siôn Page a'i ffrindiau oedd yn gyfrifol am y sain a'r golau a diolch i Siôn am ddiweddarw'r gynulleidfa gyda sgôr y rygbi!

Nid ydarian gwaith cartref yn unig a aeth yn ôl i Lanllwni ond y gadair hefyd. Llongyfarchiadau gwresog i Luned Jones o CFfI Llanllwni am gipio'r gadair a oedd yn rhoddedig gan Meinir Howells, Cadeirydd y Sir ac wedi'i chreu gan Chris Powell, cyn aelod o Lanfynydd. John James, Llywydd



y Sir, oedd yng ngofal seremoni'r cadeirio ac mi roedd yn seremoni arbennig iawn gyda Gwynfor Lewis a'i deulu yn rhoi cadair er cof am Ann Lewis, cyn aelod o CFfI Cwmann, i'w defnyddio yn y seremoni yn flynyddol. Rhodd garedig iawn gan y teulu – Gwynfor, Dylan, Dafydd a'u teuluoedd, a'r gadair yn un gelfydd i'w thrysori. Gwnaed y gadair gan Mr Dicker o Gwmann. Cyflwynwyd y gadair gan Morgan a Mari, sef wyron Ann. Gwenllian Phillips o CFfI Penybont a ganodd gân y cadeirio a

Lois Price o CFfI Cwmann oedd yn canu'r corn gwlad. Miriam James, Anna Phillips, Carys Thomas ac Owain Davies fu'n cyfarch y buddugol.

Diolch i'r uchod i gyd ac i CFfI Penybont am stiwardio'r tair noson - welwn ni chi 'to'r flwyddyn nesaf! A diolch i NFU Sir Gâr am eu cefnogaeth barhaol yn darparu Swyddfa Sirol ar gyfer y Mudiad.

Dyma ganlyniadau'r wyl:

Sgets - 1af – CFfI Penybont (Du), 2ail – CFfI Capel Iwan a CFfI Dyffryn Cothi, 3ydd – CFfI Cynwyl Elfed. **'Stand Up'** - 1af – Sam Jones, CFfI Capel Iwan, 2ail – Hefin Evans, CFfI Capel Iwan, 3ydd – Mathew Jones, CFfI Dyffryn Tywi. **Canu Emyn** - 1af – Elen Thomas, CFfI Capel Iwan, 2ail – Elin Jones, CFfI Penybont, 3ydd – Sioned Howells, CFfI Llanllwni.

Ensemble Lleisiol - 1af – CFfI Penybont (Llwyd), 2ail – CFfI Dyffryn Cothi, 3ydd – CFfI Penybont (Du). **Unawd Offerynnol** - 1af – Daniel O'Callaghan, CFfI Penybont, 2ail – Glyn Morris, CFfI Dyffryn Tywi, 3ydd – Nia James, CFfI Dyffryn Tywi. **Unawd Alaw Werin** - 1af – Elen Thomas, CFfI Capel Iwan, 2ail – Hannah Richards, CFfI Penybont, 3ydd – Elin Jones, CFfI Penybont. **Ensemble Offerynnol** - 1af – CFfI San Ishmael, 2ail – CFfI Penybont, 3ydd – CFfI Dyffryn Tywi. **Parti Cerdd Dant** - 1af – CFfI Llanfynydd. **Dawns Stepio** - 1af – CFfI Penybont, 2ail – CFfI Capel Iwan, 3ydd – CFfI Cynwyl Elfed. **Deuawd** - 1af – Ffion a Heledd Thomas, CFfI Llangadog, 2ail – Carys Haf a Deian Thomas, CFfI Dyffryn Cothi, 3ydd – Kellie-Gwen Morgan a Fflur Davies, CFfI Llandeilo. **Unawd 26 neu iau** - 1af – Heledd Evans, CFfI San Ishmael, 2ail – Ffion Thomas, CFfI Llangadog. **Côr Cymysg** - 1af – CFfI Llangadog a Dyffryn Cothi, 2ail – CFfI Penybont. **Unawd 16 neu iau** - 1af – Elin Jones, CFfI Penybont, 2ail – Hannah Richards, CFfI Penybont, 3ydd – Carys Morgan, CFfI Llanfynydd.

a Bethan Evans, CFfI Llangadog. **Llefaru 16 neu iau** - 1af – Sioned Howells, CFfI Llanllwni, 2ail – Daniel O'Callaghan, CFfI Penybont, 3ydd – Elen Thomas, CFfI Cwmann. **Unawd 21 neu iau** - 1af – Elen Thomas, CFfI Capel Iwan, 2ail – Carys Haf, CFfI Dyffryn Cothi, 3ydd – Iolo Roberts, CFfI Llangadog. **Llefaru 21 neu iau** - 1af – Manon Johnston, CFfI Dyffryn Cothi. **Llefaru 26 neu iau** - 1af – Ffion Davies, CFfI Llangadog, 2ail – Carys Jones, CFfI Llanddarog, 3ydd – Hefin Evans, CFfI Capel Iwan. **Meimio i Gerddoriaeth** - 1af – CFfI Llangadog, 2ail – CFfI Penybont, 3ydd – CFfI Llanllwni. **Cân Gyfoes** - 1af – CFfI Llanfynydd, 2ail – CFfI Dyffryn Tywi. **Monolog** - 1af – Heledd Roberts, CFfI Llangadog, 2ail – Ceirios Davies, CFfI Dyffryn Tywi, 3ydd – Owain Davies, CFfI Llanllwni. **Dawnsio Disgo** - 1af – CFfI Llanllwni, 2ail – CFfI Cynwyl Elfed, 3ydd – CFfI Cwmann. **Parti Llefaru** - 1af – CFfI Llanllwni, 2ail – CFfI Llangadog, 3ydd – CFfI Llanddarog. **Unawd Sioe Gerdd neu Ffilm** - 1af – Harry Evans, CFfI Llanfynydd, 2ail – Ceirios Davies, CFfI Dyffryn Tywi, 3ydd – Carys Haf, CFfI Dyffryn Cothi. **Deuawd Ddoniol** - 1af – Eirwyn Richards a Deian Thomas, CFfI Dyffryn Cothi, 2ail – Gareth Spiers a Carwyn Jones, CFfI Penybont, 3ydd – Hefin Jones a Ifor Jones, CFfI Llanllwni. **Parti Deulais** - 1af – Merched CFfI Penybont, 2ail – CFfI Llanddarog, 3ydd – CFfI Llangadog. **Rhyddiaith 1af** - Luned Jones, CFfI Llanllwni, 2ail – Gwenllian Owen, CFfI Llangadog, 3ydd – Manon Tomos, CFfI Dyffryn Cothi. **Cerdd** - 1af – Ceri Davies, CFfI Dyffryn Cothi, 2ail – Manon Tomos, CFfI Dyffryn Cothi, 3ydd – William Hancock-Evans, CFfI San Clêr. **Adroddiad i'r Wasg** - 1af – Gethin Edwards, CFfI Dyffryn Tywi, 2ail – Sioned Howells, CFfI Llanllwni, 3ydd – Elen Davies, CFfI San Clêr. **Creu Blog** - 1af – Elin Childs, CFfI Llanfynydd, 2ail – Heledd Roberts, CFfI Llangadog, 3ydd – Gwenllian Owen, CFfI Llangadog. **Creu Cyflwyniad PowerPoint** - 1af – Ffion Potter, CFfI Llanddarog, 2ail – Dylan Thomas, CFfI Llanfynydd, 3ydd – Non Roberts, CFfI Llangadog. **Brawddeg** - 1af – Gary Childs ac Elin Rees, CFfI Llanfynydd, 3ydd – Nia Davies, CFfI San Clêr. **Cyfansoddi Sgets** - 1af – Mared Evans, CFfI Penybont, 2ail – Gethin Edwards, CFfI Dyffryn Tywi, 3ydd – Owain Davies, CFfI Llanllwni. **Ffotograffiaeth** - 1af – Elen Williams, CFfI Capel Iwan, 2ail – Luned Jones, CFfI Llanllwni, 3ydd – Gethin Edwards, CFfI Dyffryn Tywi. **Limrig** - 1af – Sara Non Thomas, CFfI Llanfynydd, 2ail – Cerys Howells, CFfI Llanllwni, 3ydd – Gethin Edwards, CFfI Dyffryn Tywi. **Creu Eitem yn Defnyddio Llechen** - 1af – Meryl Davies, CFfI Llanllwni, 2ail – Siriol Howells, CFfI Llanllwni, 3ydd – Cerys Howells, CFfI Llanllwni a Carys Davies, CFfI Llanarthne.

Sioned Howells, C.Ff.I. Llanllwni



Parti Llefaru C.Ff.I. Llanllwni a fu'n fuddugol yn Eisteddfod y Sir.

Noson O Adloniant

Yng Nghwmni

Bois Y Rhedyn

CFfI Pontsian

Gwin Poeth A Mins Peis

4/12/2015 - 7:30yh

Neuadd Pontsian

£6

Elw tuag at

Special Care Baby Unit

Singleton a Glangwili

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder
SA40 9RL

C.Ff.I Ceredigion

Dyma fis prysur arall i'r Ffermwyr Ifanc yng Ngheredigion. Rydym wedi dechrau ar y cystadlu gyda'r Diwrnod Maes a hefyd yn prysur baratoi ar gyfer Eisteddfod y Sir.

Diwrnod Maes y Sir: Llangwryfon yn ennill!

Cynhaliwyd Diwrnod Maes C.Ff.I. Ceredigion ym Marchnad Tregaron ddydd Sadwrn, 10fed o Hydref. Cafwyd cystadlu brwd drwy gydol y dydd gyda 17 o glybiau'r Sir yn cymryd rhan gyda dros 200 o aelodau yn cystadlu mewn amryw o gystadlaethau. Braff oedd gweld nifer o aelodau newydd yn ymgeisio ar y gystadlaethau stoc. Bu cynnydd yn nifer y clybiau a gymerodd ran yn y cystadlaethau - Sialens ATV, Addurno Cacen, Trimio Oen, Ffensio Iau a Hŷn, Fferm Ffactor Iau, Ocsiwn Ffug, Ceiliog Gwynt, Gwneud Torch Nadolig a Gyrru Tractor, gan sicrhau digon o amrywiaeth yn ystod y dydd.

Dyma restr y canlyniadau:-

Stocmon y Flwyddyn - Cwpan Her Cefnmaes: 1af - Elizabeth Harries, Pontsian; 2il - Elen Thomas, Pontsian; 3ydd - Delyth Jones, Tregaron, 4ydd - Minnie Hartnell, Troedraur. **Tîm dan 26** - Cwpan Her teulu Moelifor: 1af - Pontsian; 2il - Llangwryfon; 3ydd - Llanwenog. **Beirniad Stoc y Flwyddyn** - Cwpan Trevor Davies a'r teulu: 1af - Eiry Williams, Llangwryfon; 2il - Dewi Davies, Llanddeiniol; 3ydd - Mirain Richards, Llanddewi Brefi; 4ydd - Alaw Rees, Mydroilyn. **Tîm dan 18** - Cwpan Her Pantyrhendy: 1af - Llangwryfon; 2il - Llangeitho; 3ydd - Mydroilyn. **Beirniad Stoc y Flwyddyn - 14 oed ac iau**:- 1af - Elin Rattray, Trisant; 2il - Bedwyr Siencyn, Talybont; 3ydd - Elin Davies, Llanwenog; 4ydd - Beca Jenkins, Pontsian. **Tîm 14 oed ac iau**: 1af - Llanddeiniol; 2il - Tregaron; 3ydd Felinfach. **Addurno Cacen**: 1af - Cerys Evans, Mydroilyn; 2il - Angharad Jones, Llanddewi Brefi; 3ydd - Cari Davies, Tregaron. **Sialens ATV** - Cwpan Grŵp ATB Canol Ceredigion: 1af - Rhodri Morris a Cennydd Jones, Pontsian; cydradd 2il - Carwyn Jones a Glyn Hughes, Mydroilyn a Rhodri Organ a Rhydian James, Troedraur. **Ceiliog y Gwynt**: 1af - Deiniol Organ, Troedraur; 2il - Carwyn Davies, Llanwenog. **Gyrru Tractor a Loader**: Tarian Goffa John Bowman: 1af - Sion Evans, Talybont; 2il - Dyfan Ellis Jones, Llangwryfon; 3ydd - Rhodri Davies, Pontsian. **Trimio Oen**: Cwpan Her Meirniad a Sioned Green, Nantgwyn: 1af - Sian Downes, Llangeitho; 2il - Trystan Davies, Talybont; 3ydd - Menna Williams, Llanwenog. **Addurno Torch Nadolig**: 1af - Elin Calan Jones, Llangwryfon; 2il - Meirion Morgan, Llangeitho; 3ydd - Minnie Hartnell, Troedraur. **Fferm Ffactor Iau**: 1af - Huw Jones a Owain Thomas, Felinfach; 2il - Dewi Davies a Dylan Morris; 3ydd - Laura Evans a Dafydd Guto Davies, Llangwryfon. **Ocsiwn Ffug**: 1af - Caryl Haf Jones a Beca James, Llanddewi Brefi; 2il - Bleddyn Jones a Dyfan Evans, Troedraur; 3ydd - Arwyn Jones a Dafydd John Davies, Llangwryfon. **Ffensio Iau**: 1af - Llangwryfon; 2il - Lledrod; 3ydd - Llanwenog. **Ffensio Hŷn** - Cwpan Cilerwisg, Felinfach: 1af - Llangwryfon; 2il - Llanddeiniol; 3ydd - Tregaron.

Ar ddiwedd y cystadlu, ac yn ennill cwpan her Pantlleinau, roedd clwb Llangwryfon ac yn derbyn tlws coffa Gethin Jones, Deinol am ddod yn ail roedd Llangeitho.



Dymuna C.Ff.I. Ceredigion ddiolch i bawb a fu ynghlwm â Diwrnod Maes y Sir drwy feirniadu, benthg offer a stoc, cyfrif y marciau a stiwardio gydol y dydd. Diolch yn arbennig i gwmni D.A.G. Jones am ganiatáu i ni gynnal y Diwrnod Maes yn y Mart ac i Fferm Penlan, Tregaron am gael benthg y cae ar gyfer y gystadlaethau Ffensio. Diolch hefyd i noddwyr y dydd sef Lloyd's Animal Feeds; Wynnstay a Dilwyn Williams a diolch iddynt am fod yn bresennol yn y digwyddiad. Gwerthfawrogwn gymorth pawb yn fawr iawn. Bydd enillwyr y cystadlaethau yma yn cynrychioli Ceredigion yn awr yn Niwrnod Maes Cymru a fydd yn cymryd lle ar Ebrill 23 yn Y Fenni.

Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol C.Ff.I Ceredigion

Cafwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol llwyddiannus yn Neuadd yr

Hafod, Gorsgoch nos Fercher y 23ain o Fedi. Llongyfarchiadau i Emyr Evans am gael ei ethol yn Gadeirydd y Sir ac i Mererid Davies am gael ei ethol yn Is-Gadeirydd. Llongyfarchiadau hefyd i Edwina Jones am gael ei ethol yn Llywydd y Sir ac i Geraint Morgan am gael ei ethol yn Is-lywydd y Sir. Pob lwc i chi yn eich swyddi.

Gostyngiadau i aelodau

Unwaith eto eleni mae nifer o fusnesau lleol wedi bodloni i roi gostyngiad i Aelodau C.Ff.I Ceredigion wrth ddefnyddio eu carden aelodaeth. Rydym fel aelodau yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth gan y busnesau yma: Lan Llofft, Siop Inc, Gwesty'r Marine, Crysau T Mwnci Ffwnci, 3N Gwallt, Awen Teifi, Llund Plât a'r Sied Gêc.

Ewch i wefan y Sir i weld beth yn union yw'r gostyngiadau ymhob busnes. Os oes gennych chi ddiddordeb cynnig gostyngiad i Aelodau C.Ff.I Ceredigion cysylltwch â'r Swyddfa.

Cyfarfod Carwyn Jones



Nos Iau'r 8fed o Hydref aeth Mererid Davies, Is-gadeirydd y Sir a Bethan Roberts, Aelod Hŷn y Sir i ddigwyddiad Cyfarfod Carwyn ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cyfle i gwrdd a holi cwestiynau i'r Prif Weinidog oedd y digwyddiad yma a rhan o daith Carwyn Jones o amgylch y wlad i drafod materion cyfoes a gwleidyddol. Roedd yn gyfle i ni holi Carwyn am faterion amaethyddol a chefn gwlad ac yn benodol am sefyllfa'r diwydiant llaeth a phrisiau cig oen ar hyn o bryd. Roedd y Prif Weinidog yn gefnogol iawn i waith da'r C.Ff.I ac yn dweud fod y mudiad yn allweddol i ddatblygiad cefn gwlad - grêt i glywed!

Clwb 200 Mis Hydref - mis Hydref

1af: C.Ff.I Tregaron. 2il: Rhian Jones, Awelfor. 3ydd: Hywel Thomas, Delfan, Aberaeron

I ddod....

Nos Lun y 9fed o Dachwedd: Noson i Aelodau dan 18oed. Nos Fercher yr 11eg o Dachwedd: Hyfforddiant a chystadlaethau Barnu Carcas, Dunbia. Nos Fercher y 18fed o Dachwedd: Pwyllgorau'r Sir, Canolfan Addysg Felinfach. Dydd Sadwrn yr 21ain o Dachwedd: Eisteddfod C.Ff.I Cymru, Aberystwyth. Nos Wener y 27ain o Dachwedd: Chwaraeon Dan Do y Sir, Llanddewi-Brefi.

O'r Cyngorau Bro



Cyngor Cymuned Llanybydder

Cyfarfod Medi 2015 - **Y GANOLFAN DEULUOL** - Rhoddwyd £500.00 o gymorth ariannol iddynt. **CWM AUR** - Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Cwm Aur (Grŵp Gwalia) i ofyn iddynt beth sy'n mynd i ddigwydd yno ar yr 31/10/15. **MODURON YN RASIO AR Y MYNYDD** - Trafodwyd y mater yma gan PSO Eleri Bonning; bydd yn archwilio ymhellach. **GOLEUADAU NADOLIG** - Penderfynwyd gadael y mater hwn yn nwylo gofalus Pamela Burke ac Eddie Davies. Byddant yn adrodd inni yn y cyfarfod nesaf. **BINIAU SBWRIEL** - Gofynnwyd i Gyngor Sir Gâr ddarparu dau fin sbwriel ar gyfer y pentref. **Y GOFGOLOFON** - Mae'r Clerc yn ymchwilio i weld pa grantiau sydd ar gael ar gyfer gwelliannau. Mae rhai o'r Cyngorwyr yn chwilio am amcan-brisiau hefyd. **ARWYDDION PENTREF RHYDCYMERAU** - O'r diwedd, mae'r arwyddion yma wedi cyrraedd Rhydcymerau.



Rhedeg dros Gymru!

Llongyfarchiadau gwresog i Richard Marks a Dawn Kenwright sydd wedi cael eu dewis i gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth traws-gwlad yn Nulyn ganol mis Tachwedd. Mae'r ddau wedi hawlio eu lle yn y bencampwriaeth am fod y cyflymaf yn eu categori oedran wrth redeg rasy amrywiol dros y llwyddyn.

Hanner marathon Pumsaint

Cynhaliwyd ras newydd sbon eleni ym Mhumsaint ac un o aelodau'r clwb, Carwyn Davies a drefnodd Hanner Marathon Pumsaint, yn ogystal â ras 10k a rasy plant. Roedd y ras hwyl 10k yn cynnwys 1,100 troedfedd o ddringo ar hyd lwybrau, caeau a nentydd. Y rhedwr cyntaf i groesi'r llinell derfyn o glwb Sarn Helen ac yn y 5ed safle oedd y crwtyn ifanc o Gorsgoch, Thomas Willoughby mewn 54.51, gyda'i fam Helen Willoughby yn gorffen nesaf i Sarn Helen mewn 1.00.17, yna Mitchell Readwin mewn 1.01.37 a'r ysbrydoledig Jane Holmes mewn 1.32.16 rhyw 3 mis yn unig ar ôl derbyn llawdriniaeth ar ganer yr ysgyfaint. Roedd cwrs yr hanner marathon yn gofyn i'r rhedwyr ddringo 2,000 o droedfeddi drwy brydferthwch Dyffryn Cothi ac fe fentrodd 13 o aelodau Sarn Helen arni. Yn taranu drwy'r llinell derfyn ac yn synnu llawer o bobl o ystyried ei fod wedi cymryd rhan yn Ironman Cymru yr wythnos flaenorol, oedd Gareth Payne mewn amser arbennig o 1.33.52 ac yn ei ddilyn oedd Steven Holmes mewn 1.34.40, yna Simon Hall 1.36.12, Gethin Jones 1.39.16, Kevin Hughes 1.42.21, Nigel Davies 1.44.32, Tony Hall 1.45.17, Murray Kisbee 1.45.32, George Eadon 1.50.11, Eleri Rivers 1.56.05, Ormond Williams 2.31.18. Fe brofodd y diwrnod yn llwyddiant mawr ac fe gododd y digwyddiad lawer o arian i Gylch Meithrin Llansawel.

Hanner Marathon Caerdydd



Ddydd Sul Hydref 4ydd, fe wnaeth 17 o aelodau'r clwb ymweld â'r brifddinas er mwyn cymryd rhan yn hanner marathon blynyddol Caerdydd. Y rhedwr cyntaf i glwb Sarn Helen oedd ein milgi Dylan Lewis a redodd ras arbennig gan orffen mewn 1.14.08, safle 58 a 32ain yn ei categori oedran. Aelod nesaf y clwb i orffen oedd Llewelyn Lloyd mewn amser ffantastig unwaith yn rhagor sef 1.19.01. Yn agos iawn at ei amser gorau roedd Carwyn Davies mewn 1.22.36, a 4 munud yn arafach na'i amser gorau roedd Gethin Jones mewn 1.26.37, er iddo dynnu 5 munud oddi ar ei amser ers y Great North Run 3 wythnos ynghynt. Fe barhaodd y brwydro cyfeillgar rhwng Nigel Davies a Kevin Hughes gyda David Thomas yn eu herio y tro yma er iddyn nhw orffen yn y drefn yma mewn 1.27.50, 1.27.53 a 1.28.25. Llwyddodd George Eadon i synnu ei hun gyda'i berfformiad anhygoel wrth iddo orffen gyda'i amser gorau o 1.33.19, gyda Caryl Davies yn gorffen yn gryf mewn 1.36.51. Roedd Sian Roberts-Jones ac Eleri Rivers yn hapus dros ben gyda'u hamseroedd wrth i'r ddwy lwyddo i faeddu eu hamser cyflymaf, gyda Sian yn gorffen mewn 1.38.50 ac Eleri yn tynnu 4 munud a hanner i ffwrdd o'i hamser blaenorol a gorffen mewn 1.40.12. Aelod ieuengaf y clwb i gymryd rhan oedd Ffion Quan a oedd yn rhedeg ei hanner marathon cyntaf a llwyddodd i roi perfformiad arbennig gan orffen yn gryf iawn mewn 1.43.40 a oedd yn ei gosod yn yr 8fed safle i ferched dan 20. Gorffennodd Terry Wyn Jones mewn 1.49.13, Carys Davies yn gorffen munud ynghynt na llynedd mewn 1.58.01, Darren Chant 2.31.07, ac fe redodd Emma Gray ras dda er nad oedd hi'n hwylus gan orffen 2.42.07, gyda Katherine Axten yn croesi'r llinell derfyn mewn 2.44.32.

Canlyniadau eraill

Cynhaliwyd ras newydd yn Llangrannog eleni hefyd a oedd yn dechrau ac yn gorffen yng Ngwersyll yr Urdd, ac er ei bod hi braidd yn fyr o 10k roedd y dringfeydd a'r llwybrau yn eu gwneud hi'n ras heriol i'r rhedwyr. Simon Hall oedd rhedwr cyntaf y clwb i orffen mewn 42:41 a chipio'r 4ydd safle, tra fod Mitchell Readwin wedi cal ras dda er gwaethaf y ffaith bod hen anaf

yn ei boeni o filltir 5 ymlaen, ond llwyddodd i orffen mewn 53:01, eiliadau cyn yr ail ferch sef Dee Jolly mewn 53:18.

Cynhaliwyd ras gyntaf cynghrair traws-gwlad Gwent yn Mhen-y-bont ar Ogwr ddydd Sul Hydref 11eg. Gwelwyd canlyniadau arbennig gan ieuenticid ac aelodau hŷn Sarn Helen wrth i Rhys Williams orffen yn 18fed yn ras y bechgyn cynradd; Beca Mai Roberts 18fed i ferched dan 12; Grace Page 48ain merched dan 14; Caryl Davies 83ain yn y merched hŷn a Richard Marks 201fed i ddynion hŷn. Llwyddodd Beca, Caryl a Richard dderbyn gwahoddiad i redeg dros dîm gorllewin Cymru mewn cystadleuaeth traws-gwlad yn Llanfair y Muallt ym mis Rhagfyr, felly dymuniadau gorau iddynt.

Yr un diwrnod, fe aeth 3 o'n haelodau i Criggion yn Shropshire i gystadlu yn ras mynydd y Breidden Hills a oedd yn 7 milltir o hyd. Ni wnaeth y gystadleuaeth gryf na'r ddringfa o 2,300 troedfedd beri gofid i'r bechgyn wrth i Dylan Lewis orffen yn y 6ed safle ac yn 4ydd yn ei categori mewn amser o 56:55. Cafodd Sion Price ras arbennig a llwyddodd i ennill y categori i ddynion dan 23 mewn 62:31, tra bod Llewelyn Lloyd hefyd wedi gorffen yn y 15 uchaf mewn 65:37.



Ddydd Sul, Hydref 18fed, hedfanodd capten y clwb, David Thomas i ynys Mallorca er mwyn cymryd rhan yn ei 52 marathon. Dyma'r eildro iddo wneud y marathon hon a llwyddodd i orffen mewn amser arbennig o 3 awr 25 munud.

Yr un diwrnod, yn nes at adre, cynhaliwyd Ras Dau Gopa, Aberystwyth lle roedd gofyn i'r rhedwyr ddringo Pen Dinas a "Consti" yn ogystal â rhedeg y promenâd ddwywaith. Ymysg y 120 o redwyr roedd 14 o Sarn Helen a llwyddwyd i gael canlyniadau arbennig. Yn arwain y ffordd i Sarn Helen oedd Llewelyn Lloyd a orffennodd yn 4ydd ond yn derbyn yr aur yng nghategori y dynion agored mewn amser o 47:05, tra bod Calvin Williams yn hapus dros ben gyda'i ras a'i osododd yn y safle cyntaf i ddynion dros 50 ydag amser o 54:55. Yn profi ei bod hi'n dychwelyd

i'w ffitrwydd ar ôl ei hail blentyn ac yn ennill ras y merched roedd Dee Jolly mewn amser o 57:13 gyda chyd aelod o'r clwb Caryl Wyn Davies yn gorffen yn y 3ydd safle mewn 58:37. Rheddodd Ffion Quan y ras hon am y tro cyntaf gan roi perfformiad arbennig i ennill categori y merched dan 20 mewn 65:13. Canlyniadau eraill y dydd oedd: Glyn Price 48:50 (4ydd M40), Simon Hall 49:33, Carwyn Davies 50:26, George Eadon 55:29, Huw Price 58:59 (4ydd M50), Thomas Willoughby 62:14 (3ydd dynion dan 20), Helen Willoughby 64:49 (4ydd F45), Mitchell Readwin 66:11, Emma Gray 92:57.

Adran y Plant

Fe aeth llawer o'n haelodau ifanc i Barc Dinefwr, Llandeilo ar gyfer y White Park Cattle Run ar Fedi 27ain. Yn y ras 1 filltir, fe orffennodd ein haelod ieuengaf Maddie Caulkett, yn y 7fed safle yn ei chategori oedran mewn 14:36, tra bod ei chwaer Violet wedi gorffen yn ail yn ei chategori hithau mewn 9:23. Roedd hi'n ras agos rhwng bechgyn bl 5 & 6 gyda thri o'r clwb yn gweithio'n galed am eu safleoedd. Rhys Williams orffennodd gyntaf mewn 7:12, gyda'r 3ydd safle yn mynd i Jamie Jones mewn 7:56 a Rhodri Gregson yn agos iawn iddo yn y 4ydd safle mewn 8:03.

Yn y ras 5k i ieuenticid, rhoddodd Daniel Willoughby berfformiad disglair mewn amser o 25:09 ond roedd y gystadleuaeth yn gryf ac fe gafodd ei osod yn y 5ed safle yn ei categori. Rheddodd y brawd a'r chwaer Jack ac Isabell Caulkett amseroedd o 26:59 a 36:03 a oedd yn golygu fod Jack wedi derbyn arian ac Isabella yn cael efydd.



Y ras newydd sbon yn Llangrannog, Ras Crannog, oedd y ras nesaf i aelodau ifanc y clwb, ac yn y ras i fl 5 & 6, Jamie Jones gipiodd y wobwr gyntaf mewn 5:40 gyda Rhodri Gregson yn gorffen yn 3ydd mewn 6:00. Cafodd Sara Thomas ras arbennig gan daranu drwy'r llinell derfyn fel yr ail



ferch mewn 6:15 tra bod Beca Jones wedi gorffen yn 5ed mewn 7:16.

Gwnaeth y merched uwchradd yn arbennig wrth i chwaer hŷn Jamie, Chloe Marie, ennill y wobwr aur yn ras bl 7 & 8 mewn amser o 27:17 gyda chwaer Sara, sef GwenThomas hefyd yn ennill y wobwr aur yn y ras i flynyddoedd 9-11, gan orffen y cwrs heriol 5k mewn 32:41.

Clwb beicio

Mae rhai aelodau'r clwb wedi cymryd rhan yn Realteam.co.uk yn ystod y misoedd diwethaf sy'n cynnwys yr un cwrs ac felly bwriad y beicwyr yw gwella eu hamser gorau. Roedd y llethr serth ar ddechrau cwrs y Glyn Neath Time Trial yn gweld beicwyr yn cyrraedd cyflymder o 40 mya, a llwyddodd y brodyr Eric a Dorian Rees orffen y cwrs 25 milltir mewn 1.01.40 a 1.02.50. Yn y Bynea CC, a oedd unwaith eto yn defnyddio'r un cwrs, gwelwyd ieuenctid y clwb a oedd yn treialu'r cwrs am y tro cyntaf, yn cael llwyddiant wrth i Jake Gartland ennill categori y dynion dan 16 mewn amser o 1.00.52 gyda Carwyn Davies wedi cael ei osod yn uchel yng nghategori y dynion dan 20 mewn 1.05.21. Roedd y brodyr Eric a Dorian Rees wedi cael ras dda unwaith eto gyda'r amser rhyngddynt wedi lleihau, gyda Eric yn gorffen yn 1.01.27 a Dorian mewn 1.01.57. Dorian Rees oedd unig aelod y clwb i fentro ar ddau weithgaredd yn y Pembrokeshire Velo Open Events sef y Prawf Amser 10 milltir a'r Ddringfa a oedd yn cael eu cynnal yr un diwrnod. Llwyddodd i orffen y prawf amser mewn 26.51 gyda chyfartaledd y cyflymder yn 22mya, ac fe orffennodd y ddringfa o 1.2 milltir yn gryf ynghyd â chyd aelod o'r clwb, Tim Strang. Ar Fedi 13eg, cynhaliwyd Pencampwriaeth Dringo Mynydd Cymru i feicwyr ar y Mynydd Du, ac er taw ond 3.3 milltir oedd y cwrs roedd y ddringfa yn 1,023 o droedfeddi. Roedd perfformiad cryf Tim Strang wedi ei osod yn ail veteran mewn 18.19 tra bod Dorian Rees wedi gorffen yn agos iawn iddo mewn 18.53.

Marathon Eryri

Rhaid llongyfarch Dylan Lewis, Huw Lewis Teiars am orffen yn y 10 uchaf ym Marathon Eryri ar y 24ain Hydref, mewn amser anhygoel o 2.51. Camp aruthrol! Cewch gyfle i ddarllen peth o'r hanes ar wefan Clonc360, a mwy am y digwyddiad hwn y mis nesaf.

Lle aeth pawb?



Wrth y gwair yn ardal Llanybydder cyn 1939, ond pwy sydd yn y llun yw'r cwestiwn? Diolch i Alun Jones, Parc-y-rhos am y llun.

Bardd Ifanc y Pentref

Ymfalchïwn yn llwyddiant Endaf Griffiths, Penlanfawr yn dilyn ennill Cadair Eisteddfod Rhys Thomas James yn Llambled ddiwedd Awst. Gwelwyd ef ar y teledu yn sgwrsio am ei lwyddiant ac fe fu ar Radio Cymru hefyd. Llongyfarchiadau mawr i ti Endaf ar ennill Cadair Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion i Glwb Pontsian ddiwedd mis Hydref. Da iawn ti.

Colled

Yn ystod y mis collwyd un o ddiagoniaid Capel y Cwm, sef Mr David [Dai] Richards, Elmo, Cwrtnewydd yn 95oed. Roedd wedi mwynhau iechyd da ar hyd y blynyddoedd ac roedd wedi bod yn ffodus iawn i gael Jean yn chauffeur da iddo ar hyd y blynyddoedd diwethaf yma. Dyn y wlad a'i filltir sgwâr oedd Dai ac ymhyfrydai yn fawr iawn ym mhopeth a ddigwyddai yn yr ardal. Bu ei angladd yn breifat yng Nghapel y Cwm, lle a oedd yn agos iawn at ei galon, ac yna lawr yn yr Amlogsgfa yn Arberth. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r merched Jean a Wenella, Hywel ei fab yng nghyfraith, yr ŵyr Rhys, a'i wyres Carys a'i chymar Owain a'r holl gysylltiadau teuluol i gyd.

Cwrdd Diolchgarwch

Ar noson hyfryd o Hydref daeth tyrfa luosog iawn i Gapel y Cwm i'r Cwrdd Diolchgarwch blynyddol a'r gweinidog gwadd eleni oedd y Parch Eileen Davies o Lanllwni. Croesawyd hi yn gynnes iawn gan y Parch Wyn Thomas ac fe gafwyd ganddi anerchiad hynod o ddiddorol ac roedd yn mwynhau cael cwmni'r plant yn yr oedfa hefyd. Diolchwyd iddi yn gynnes iawn ac roedd yn braf gweld y Capel wedi ei addurno gan famau plant yr Ysgol Sul. Wrth yr organ roedd Mrs Eleri Jenkins, Bryngolau.

Dyweddïad

Llongyfarchiadau i Carys Mair Evans, Penffordd ar ei dyweddïad â Owain Dafydd o Ruthin. Mwynhewch y dathlu.

Pen-blwydd arbennig

Ar ddechrau mis Tachwedd dathlodd Eifion Jones, Talar Wen ben-blwydd arbennig. Iechyd da eto i'r dyfodol.

Tip-It

Cafwyd noson hwylus dros ben yn Festri Capel y Cwm nos Wener, Hydref 9fed pan gafwyd gemau o Tip-It. John Jones, Penrheol oedd yr MC. Bu 8 tîm yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Ar ddiwedd y noson y pencampwyr oedd tair cenhedlaeth o deulu Cathal, sef Hefin, Sian a Ffion Jenkins ac yn ail agos iawn oedd Sian a Luned Jones ac Elan Jenkins, Blaenhirbant.



Tynnwyd raffl fach a'r enillwyr oedd Nia Davies; Bet Davies, Iris d/o Cathal; Sulwyn, Cathal; Margaret, Tyhen; Paul Williams; Mary Jones a John Jones.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae'n siŵr eich bod wedi prynu tocyn raffl a'r enillwyr hynny oedd:

1. Einir Ryder, Tyngrug Ganol.
2. Olwen Jenkins, 6 Cae Sarn. 3. 480871. 4. Malcolm Williams, Cwmcou. 5. Tomos Ifan, Blaencwmdu.

Rhoddyd y diolchiadau i bawb am noson hwylus gan Mary Davies, Maesglas.



Cwrdd Diolchgarwch y Plant

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y plant ddydd Sul, Hydref 18fed gyda 13 o blant yr ysgol Sul yn cymryd rhan. Braf oedd eu gweld i gyd yn mwynhau. Einir Ryder fu'n cyfeilio yn y gwasanaeth. Diolch i'r Parch Wyn Thomas am ei wasanaeth ar ddiwedd y gwasanaeth hefyd.

Cyflwynwyd iddynt hefyd dystysgrifau i bawb a basiodd yr Arholiad a gynhaliwyd nôl yn y gwanwyn.

Yn dilyn y cwrdd aeth pawb i'r festri i gael te prynhawn. Roedd y plant wedi bod yn paratoi a choginio yn ystod y bore er mwyn gweini i'r gynulleidfa. Diolch i Sirian Davies, Coedlannau am arwain y sesiwn goginio.



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556
Carys Davies: 07890 883346
Gwion James: 07980 608337

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority", Rhif Cofrestru 615251.



CELFY CEGIN A 'STAFELL
WELY, ATELOGION CEGIN
WEDI EU FFITIO,
TEILS WAL A LLAWR

DOLGADER,
SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257

COMPASS
OFFICE
SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa



Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

Oriau Agor:
Llun - Sadwrn 12 - 9
Sul - ar gau

CANOLFAN ADDURNO
AA
A

Dewis arbenig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i a
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Ysgol Bro Pedr



Ysgol Bro Pedr Campws Iau

Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau sesiwn o hwyl wrth gael canu'r hen ffefrynnau yn "Sbri -diri'r Urdd" yng nghwmni Gwenda Owen. Cafodd pob disgybl ddod i'r ysgol mewn dillad coch, gwyn neu wyrdd a dod â chyfraniad am gael gwneud hynny tuag at waith yr Urdd yn lleol. Casglwyd swm sylweddol o arian a diolch i bawb am eu cyfraniadau.

Bu dau dîm o'r ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth rygbi'r Urdd yn Aberaeron yn ddiweddar a diolch i Mr Thomas am drefnu. Cafodd tîm y bechgyn a thîm y merched dipyn o lwyddiant a phawb yn dychwelyd wedi mwynhau'r profiad.

Ar ddiwrnod braf o Hydref bu disgyblion blwyddyn 4 yn gwneud gwaith maes ar y traeth yng Nghei-newydd dan gyfarwyddyd Leigh Denyer o Gyfoeth Naturiol Cymru a diolch iddo am roi o'i amser. Cafwyd diwrnod buddiol tu hwnt a phawb yn dod nôl yn llawn brwdfrydedd ac wedi dysgu llawer am fywyd gwyllt ar lan y môr - diolch i Mr Jones a Mr John am drefnu.

Cafodd pedwar disgybl o flwyddyn 6 y cyfle i ymuno gyda phlant o ysgolion eraill y sir yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog ar gyfer "Sgwad Sgwennu" Cymraeg ail-iaith. Bu Austin, Daniel, Annabel a Luca yn siarad, trafod a dysgu am wersylloedd yr Urdd a chael cyfle i fod yn sêr y teledu wrth ffilmio'r gwaith terfynol. Diolch i Mrs Evans am ei chymorth gyda'r plant.

Bu Austin, Ffion, Ifan, Cerys a Megan yn diddanu'r gynulleidfa yn y te misol yn Neuadd Fictoria a diolch iddynt am eu parodrwydd ac i Miss Sandra am gyfeilio. Roedd yn bleser gwrandao ar y cyflwyniadau hyfryd.

Daeth Mr a Mrs Roberts i'r ysgol gyda'u cŵn arwain Nutmeg a Tilly. Aethant o gwmpas pob dosbarth a chafodd y disgyblion gyfle i ofyn cwestiynau ac i ddysgu sut mae'r cŵn yn cael eu hyfforddi i arwain y deillion. Diolch iddynt am ddod atom.

Cafwyd gwasanaeth diolchgarwch yn yr ysgol a diolch i Mr Patterson a Miss Sarah am ddod atom i gyflwyno stori. Roedd pawb yn gwrandao'n astud ac fe fydd y plant yn cofio prif negeseuon y stori am gyfnod hir sef maddau, rhannu a diolch.

Daeth Cwmni Arad Goch i berfformio'r sioe "HOLA" i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 a chafwyd perfformiad graenus yn ôl eu harfer. Dilynwyd y perfformiad gan weithdai effeithiol. Diolch iddynt am ddod atom unwaith eto.



Aeth blynyddoedd 1 a 2 ar ymweliad i Eglwys Sant Pedr Llambled a bu'r Ficer Victoria yn bedyddio'r ddoli. Bu'r plant yn cynorthwyo ac yn gofyn nifer o gwestiynau pwrpasol yn ystod y seremoni. Cawsant weld y llyfr bedyddio a gwelodd tri o'r disgyblion eu henwau yno, sef Coley, Darcey a Ruby. Diolch o galon i'r Canon, y Ficer Fictoria a Beryl am y croeso cynnes.



Dyma lun plant meithrin prynhawn Ysgol Bro Pedr wedi gwisgo fel cymeriad o lyfr T Llew Jones.

Daeth y disgyblion i'r ysgol wedi eu gwisgo fel cymeriadau o lyfrau yr awdur a'r bardd enwog T Llew Jones wrth ddathlu canmlwyddiant ei enedigaeath ac roedd hi'n anodd iawn gwobrwyo'r disgyblion gorau gan fod pawb wedi gwneud y fath ymdrech. Bu pawb wthi trwy gydol y dydd yn dysgu ffeithiau am T Llew ac yn darllen llyfrau a cherddi o'u waith.



Bu disgyblion yr Adran Iau ar ymweliad â Chastell Henllys yn ddiweddar a chael cyfle i brofi bywyd fel ag yr oedd yn oes y Celtiaid. Daeth y cyfan yn fyw i'r plant ac fe erys y profiad yn hir yn y cof.

Ysgol Bro Pedr

Ysgol Bro Pedr Campws Hŷn

Llongyfarchiadau mawr i Ysgol Bro Pedr am ennill gwobr y Faner Werdd. Yn ddiweddar, daeth Bethan Phillips o 'Cadwch Gymru'n Daclus' i'r ysgol i gwrdd â'r Pwyllgor Eco ac i asesu'r gwaith pwysig maent yn ei wneud. Mae'r pwyllgor yn gweithio'n ddiwyd i wella amgylchedd yr ysgol ac maent wedi arwain nifer o brosiectau amgylcheddol a rhyngwladol.



Yn y llun mae rhai o aelodau'r pwyllgor o flynyddoedd 3 i 11 gyda Miss Geinor Jones, Cydlynnydd ADCDF a Mr David Williams, Prifathro.

Fel Ysgol, carwn ddiolch yn ddiffuant iawn i'n tîm o brif swyddogion sydd wedi gweithio'n ddi-flino ar hyd y flwyddyn gan ymgymryd â phob dyletswydd gyda graen. Diolch yn fawr i Gethin Morgan (Prif Fachgen), Sulwen Richards (Prif Ferch), Bradley Lewis, Sophie Hall Jones, Owain Davies a Sioned Fflur Evans (Dirprwyon) am fod yn llysgenhadon gwydros dros yr Ysgol a diolch iddynt am eu cymorth a'u cefnogaeth barod ar bob achlysur. Llongyfarchiadau gwresog i'n tîm newydd o brif swyddogion ar gyfer 2015-2016.

Yn dilyn ysgrifennu llythyron cais, pleidlais ymysg athrawon a myfyrwyr Blwyddyn 12 a chyfweliad, etholwyd Gareth Jones a Luned Jones yn Brif Fachgen a Phrif Ferch yr Ysgol gyda Meinir Jones, Ceri Davies, Huw Howell a Rhys Jones yn ddirprwyon. Pob dymuniad da i chi gyda'ch dyletswyddau dros y flwyddyn nesaf.



Bu dathlu a chodi arian i'r Urdd ar ddydd Mawrth, Hydref 13eg wrth i'r disgyblion ddod i'r ysgol yn eu dillad coch, gwyn a gwyrd.



Llenyddiaeth

Lloffion o'r storws llenyddol yn Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen 2015.

Enillydd y Goron eleni oedd Iwan Davies o Landudoch a Llundain. 'Bardd cynnil, telynegol, â'i gerddi'n gyforiog o emosiynau gofalus' yw barn y Prifardd Guto Dafydd amdano. Roedd casgliad o 6 cherdd ganddo ar y testun 'Ymylon', ond dyma flas ar ddwy o'r cerddi hynny:

"Ymylon" adnabod?

fin nos,
dy gefn
yn ganfas wag.

rhythmau trwm
dy freuddwyd
yn wahoddiad.

dal fy ngwynt
yn dynn fel lleidr,
rhag ofn,

yna mentro troi'n arlunydd;
estyn bys,
yn ofalus,
i lunio'r amlinelliad,
cyn arllwys

holl liwiau anweledig
ein dyfodol
i'th gnawd...

miloedd o nosweithiau tebyg,
mor agos,
yn gwresogi'n gilydd,

ac eto, pob bore
mae'r llygaid yn dal i ddisgwyl ateb
i'w cwestiwn oesol:
pwy wyt ti?

Seligion

Rhain yw junkies ein hoës,
yn ysu trwy'r wythnos am eu fix
o ganeuon ffydd; yn cuddio'n grynedig
ar gyron cymdeithas â golwg wyllt
ar eu gwalltiau gwynion,
eu llygaid yn chwilio'n ofer
am rywrai i rannu'u cyfrinach mawr.

Yn wythnosol y dônt, i ddwstio'u duw
yn obsesiynol; meddwi
ar gymylau Cymraeg ddoe;
codi mur o gân i'w diogelu,

tra bo'r dyn ei hun
yn ysgwyd ei farf, o'i wely.

Megan Lewis o Lanfihangel y Creuddyn, Aberystwyth a gipiodd y wobr gyntaf ar gystadleuaeth y Gadair i rai dan 25 oed. Dyma rai brawddegau o'r feimiadaeth:

'...mae'n hyfryd clywed person ifanc yn ei dweud-hi'n ddig am fyddardod sefydliadol y to hŷn sydd mewn grym. Mae'r cyfeiriadau at '[f]ynnu ar ben toeon' a 'sachau cysgu'n hymgyrch' a'r 'gwir ar y lloriau caled' yn gwneud i mi feddwl mai cerdd am yr ymdrech i achub Neuadd Pantycelyn ydyw – ond wrth gwrs, mae gwrthryfel ieuentid, y firwydr yn erbyn y

sefydliad, yn rhywbeth oesol...'

Llef

Waeth bod rhaffau am ein cegau
concridd lond ein gyddfau
neu fotwm mute ar ein geiriau,

doedd gennym ni ddim llais

Er inni gredu, er inni fynnu,
er inni dreiddio drwy'r newyddion
i swyddfeydd cudd eu cydwybod pell,

doedd gennym ni ddim llais.

Doedden ni'n ddim mwy na
sgrech annifyr yn eu hearing aids,
yn ddim mwy na rhyw ddrw anorfod
rhyw storm fyddai'n siŵr o ddarfod
ar ôl graddio, setlo a mân anghofio.

Na, doedd gennym ni ddim llais,
ond eto, fe glywsant rywbeth,
fe glywsant ein calonnau
yn mynnu ar ben toeon,
yn rhegi'r gwir ar y lloriau caled
ac yn hawlio'n hetfeddiaeth
rhwng sachau cysgu'n hymgyrch.

Do, fe glywsant gymaint â hynny, ond eto
doedd gennym ni ddim llais
a hwythau eisoes mor drwm eu
clyw.

Enillydd y Triban ar y testun 'Dathlu' oedd Dai Rees Davies, Rhydlewis, sef cerdd '...glyfar a doniol iawn' yn ôl y beirniad y Prifardd Mererid Hopwood:

Saith Triban 'Dathlu'

Rôl gwneud ein haddunedau
Yn swyddfa'r priodasau,
Mynd lawr a wnaethom i'r Llew Du
I ddathlu am rai oriau.

Pan gafodd mab ei eni,
Yn epil cyntaf imni,
Mynd lawr a wnaethom i'r Llew Du
I ddathlu fel rhieni.

Fe ddaeth y teulu cyfan
Ar ddydd ein priodas arian,
A lawr yr aethom i'r Llew Du
Yn gwmni balch a diddan.

Ni chawsom unrhyw broblem
I drefnu'r briodas ruddem,
Fe aethom lawr eto i'r Llew Du
I ddathlu fel dylasem.

Pan nad oedd unrhyw asbri
Na llwyddiant i'w gydrannu,
Mynd lawr a wnaethom i'r Llew Du
Er hynny i gael dathlu.

Bu heulwen a bu stormydd,
Aeth y prynhawn yn hwyrddydd,
A dathliad oedd yn y Llew Du
Ein bod ni'n dal 'da'n gilydd.

A ninnau yn heneiddio
Fe fu dathliadau eto;
A aethom wedyn i'r Llew Du?
Nid wyf yn medru cofio.

Y Llew Du

Llangybi

Ysgol Y Dderi

Oeddech chi'n gwybod fod casgliad ffotograffiaeth mwyaf nodedig y Llyfrgell Genedlaethol o waith John Thomas o Gellan? Cafodd blwyddyn pedwar ddiwrnod i'w gofio yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth o dan arweiniad Meirian Morgan a Rhodri Morgans. Cawsom gyfle i ddysgu am hanes bywyd John Thomas a agorodd stiwdio ffotograffiaeth yn Lerpwl o'r enw Cambrian Studios ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cawsom y cyfle hefyd i edrych ar enghreifftiau o'i waith a thrwy hynny i gael cip olwg byw ar hanes Cymru. Mae dros 3,000 o ffotograffau yng nghasgliad y Llyfrgell o waith John Thomas; maen nhw ar gael ar-lein ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Yn dilyn gweithdy dau ddiwrnod dan ofal Elin Crowley o Gwmni Theatr Arad Goch, mae disgyblion blwyddyn 4 wedi creu arddangosfa ffotograffiaeth o Ysgol Y Dderi. Mae gwaith pob disgybl yn yr arddangosfa drawiadol ac mae'r gwaith wedi creu tipyn o gynnwrf ar draws yr ysgol. Efallai mai dyma fydd ffotograffwyr y dyfodol. Pwy a wŷr?

Bu merched blwyddyn 5 a 6 yn cynrychioli'r ysgol mewn twrnament Rygbi Tag ar gaeau rygbi Aberaeron dan ofal yr Urdd. Ennill, colli, a gemau cyfartal oedd hanes y tîm a chawson lawer o hwyl wrth wella sgiliau.

Cafodd plant y derbyn, blwyddyn 1 a 2 amser bendigedig yng nghwmni Gwenda Owen, Sali Mali a Dewin yn Sbri diri yr Urdd. Fel arfer, roedd perfformiadau egnïol Gwenda Owen yn ysbrydoli'r plant i ganu ac i ddawnsio. Cyfle gwych i ddathlu ein Cymreictod. Diolch i Anwen Eleri am drefnu.

Yn rhan o thema Archwilwyr Cymuned bu plant y Cyfnod Sylfaen yn cerdded y pentref yn Llangybi gan wneud llawer o waith maes a dysgu am hanesion y pentref. Diolch i Mrs Elizabeth Arnold Davies a ddaeth i gwrdd â hwy yn yr eglwys gan esbonio pwysigrwydd yr eglwys yn y pentref a'u dysgu am yr allor, y pulpud a'r bedyddfaen.

Mae'r Urdd yn cwrdd bob nos Fercher yn yr ysgol a hyd yn hyn mae'r plant wedi mwynhau sgiliau syrcas, creu bathodynau, rownderi, bingo, straeon o gwmpas y tân gyda marshmallows a siocled poeth a chanu. Ond heb os, yr uchafbwynt hyd yn hyn oedd cwis dan ofal Mr Odwyn. Diolch yn fawr iddo am baratoi awr ddifyr iawn i'r plant. Diolch i bawb sy'n rhoi o'u hamser yn wirfoddol i redeg yr Urdd, ac yn enwedig i Miss Sheila, sy'n trefnu'r rhaglen gyfan ac yn mynychu bob nos Fercher. Diolch hefyd iddi hi a Mrs Jen sy'n trefnu Urdd i blant y Cyfnod Sylfaen amser cinio dydd Mercher. Maent wedi mwynhau gweithgareddau yn yr awyr agored, cwis, crefft a bingo yr hanner tymor yma.

Croesawyd Mr Urdd i'r ysgol ar ein Diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd. Roedd y plant yn llawn cyffro i gael cwrdd a gweld eu harwr, a chodwyd tâl o £1 am gael gwisgo'r lliwiau er mwyn codi arian i'r Urdd yn lleol.

Cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 ddiwrnod i'w gofio wrth fwynhau taith Rhyfeddodau'r Ardal yn ddiweddar dan ofal Dafydd Morgans. Mae'r dosbarth yn astudio thema "O, am fyd rhyfeddol" sy'n cwmpasu 7 rhyfeddod hynafol y byd, 7 rhyfeddod modern y byd, 7 rhyfeddod naturiol y byd ac uchafbwynt y thema fydd creu cyflwyniad o 7 rhyfeddod Cymru! Dechreuodd y criw yn gynnar am Dalsarn i ymweld â chartref Dylan Thomas, cyn symud ymlaen i Soar y Mynydd. Cafwyd pregeth hyfryd gan Dafydd ac yna aeth y plant allan i fwyta picnic wrth fwynhau'r golygfeydd godidog. Yn Nhregaron bu'r plant yn dysgu am fedd yr elffiant, am Henry Richard a Siop Aur Rhiannon. Ymlaen i fynyddoedd y Cambria wedyn wrth gerdded i fyny i Garreg Drysgol. Gorffennwyd y daith ar uchafbwynt yng nghartref Twm Siôn Cati, sef Porth y Ffynnon. Diolch i Dafydd Morgans a Miss Rhian am drefnu'r cyfan. Diwrnod i'r brenin.

Roedd y balŵns yn hedfan yn uchel a chacen ben-blwydd i bob dosbarth i ddathlu canmlwyddiant geni Brenin Llenyddiaeth Plant Cymru sef T Llew Jones. Daeth y plant i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriadau T. Llew, a chawsom wasanaeth arbennig ar y cyd i ddadorchuddio poster y Cyngor Llyfrau o Gwm Alltcafau. Dychwelodd y plant i'w dosbarthiadau i fwynhau llw o weithgareddau am yr awdur a'r bardd unigryw yma. Diwrnod i'w gofio.

Bu'r disgyblion yn brysur iawn yn y gymuned yn cynnal Cyrrddau Diolchgarwch mewn tri sefydliad. Bu'r Cyfnod Sylfaen yn cynnal gwasanaeth yng Nghapel Maesyffynnon, Llangybi, Cyfnod Allweddol 2 yng Nghapel Bethel, Silian a'r ysgol gyfan yn cynnal gwasanaeth i'r henoed yn yr ysgol. Braf oedd gweld cynifer o drigolion Hafan Deg wedi gwneud yr ymdrech i ddod i'n gweld.

Diolch o galon i'r holl blant ddaeth â blychau Nadolig i'r ysgol a diolch i Mr Burgess am ddod i'w casglu a'u cludo i blant llai ffodus yn Romania. Mi fydd Nadolig ein ffrindiau yn Romania dipyn yn well o ganlyniad i haelioni plant Ysgol y Dderi.

Nos Wener olaf yr hanner tymor aeth bws mawr o ddisgyblion blwyddyn 3, 4, 5 a 6 i Barc Y Scarlets yn Llanelli i wylïo'r gêm â Munster. Cafodd y plant y fraint o ddal baneri'r Scarlets wrth i'r ddau dîm redeg ar y cae. Bu'r plant yn canu Sosban Fach ac yn annog y tîm o'r dechrau i'r diwedd. Cafwyd noson gymdeithasol yn llawn hwyl gyda'n gilydd. Diweddglo hyfryd i hanner tymor hapus a phrysur tu hwnt!



Diolch o galon i Tim Jones, ein ffotograffydd lleol, am ddod i fewn i siarad am ei waith, ac am hanes ffotograffiaeth gyda disgyblion blwyddyn 3 a 4. Mae'r dosbarthiadau yn astudio'r thema Gweledigaethau Newydd yn ystod yr hanner tymor cyntaf. Cawsom sgwrs ddifyr iawn yn edrych ar gasgliad eang Mr Jones o gamerâu, ac am y tro cyntaf erioed, cawsom ni gyfle i dynnu llun ohono fe! Diolch yn fawr iawn iddo am roi o'i amser i rannu ei brofiadau a'i arbenigedd. Gwerthfawrogwyd y cyfle yn fawr.



Uchafbwynt thema'r Cyfnod Sylfaen oedd ymweliad â Llanerchaeron er mwyn cymharu bywyd ddoe a heddiw. Darparwyd rhaglen arbennig i'r plant o'r Meithrin i flwyddyn 2. Cawsant gyfle i olchi dillad gan ddefnyddio padell sinc a doli, eu hongian i sychu ac yna eu smwddio gan ddefnyddio haearnau trwm. Wedyn cawsant y cyfle i wneud menyn, casglu cynhwysion i wneud pice bach ac yna blasu'r ddau gyda'i gilydd yng nghegin y fila odidog sy'n Llanerchaeron. Roedd pob plentyn wedi rhyfeddu wrth gael y profiadau gwych yma. Roedd plant y Meithrin wrth eu boddau yn gweld yr anifeiliaid amrywiol - y moch, y lloi bach, yr hwyaid, yr ieir a'r twrcwn. Dysgon nhw sut oedd y ffermwr yn arfer godro'r fuwch 'slawer dydd a chawsant gyfle i gasglu wyau. Yna, cyn gadael aeth y plant i gyd o amgylch y fila i weld arbenigrwydd y cynllunydd John Nash a dysgu am bwysigrwydd cymesuredd iddo a'r ffaith fod yna ffenestr a sawl drws esgus yno er mwyn sicrhau cymesuredd ym mhob ystafell. Un o hoff ystafelloedd y plant oedd yr ystafell gron lan llofft lle mae hyd yn oed y drws yn fwa er mwyn cau'r cylch! Diolch o galon i'r gweithwyr a'r gwirfoddolwyr a fu'n cymryd grwpiau yn ystod y dydd gan sicrhau profiadau bythgofiadwy i'r plant bychain.

Llanbedr Pont Steffan

Adran Llambed

Daeth dros tri deg o aelodau ynghyd i chwarae bingo ar ddechrau'r tymor newydd a diolch i Anthea am drefnu. Braf oedd cael croesawu nifer o aelodau newydd i'n plith. Yna cafwyd noson o chwaraeon a hwyl yng ngofal Mr Jones a Mrs Jones – diolch iddynt. Hefyd, bu Mrs Haf Meredith gyda ni yn gwneud gwaith celf hyfryd a diolch iddi am ei chyfraniad gwerthfawr. Bydd yr aelodau yn brysus yn ystod y cyfnod nesaf yn cymryd rhan mewn noson chwaraeon i adranau ar 3 Tachwedd a'r Carnifalwn ar 19 Tachwedd.

Cymdeithas Hanes

Mrs Carrie Canham, Curadur Amgueddfa Ceredigion ers 2012 oedd siaradwraig wadd mis Hydref, a chroesawyd hi a'r aelodau gan Selwyn Walters, y Cadeirydd. Thema ei sgwrs oedd 'Y gorffennol, presennol a'r dyfodol'. Drwy gyfrwng lluniau atgoffodd ei chynulleidfia am y gwaith a gyflawnwyd er mwyn agor Amgueddfa sirol nôl ym 1972 a'r Dr John Owen yn Guradur arni yn Vulcan St. Ddegawd wedyn symudwyd i hen Theatr y Coliseum, a'r lle hwnnw yn datblygu dros y blynnyddoedd.

Dilynwyd Dr Owen gan Mr Michael Freeman a fu'n ddirprwy iddo am saith mlynedd. Bu datblygiadau mawr ar ochr addysgiadol yr amgueddfa o'r amser hynny, a'i chysylltiadau yn ehangu hefyd ymhellach drwy'r sir. Daeth Carrie Canham i gymryd swydd y Curadur wrth iddynt ddathlu'r deugain mlynedd yn 2012, ac erbyn hyn mae cynlluniau ar waith i ymestyn a datblygu'r adeilad ymhellach.

Diolchwyd yn gynnes i Carrie gan y Cadeirydd, gan ddymuno'n dda iddi gyda'r prosiect enfawr a datgan y byddai'r aelodau yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld y gwaith wedi ei gyflawni.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Tachwedd 17eg, 7.30 yh yn Hen Neuadd y Coleg, pan fydd Selwyn Walters yn sôn am gyfraniad Llambed at Rygbi Cymreig.

Yn ogystal yn ystod mis Hydref, trefnwyd taith leol gan Gaenor Parry a'r Athro David Austin yn dilyn llwybr y Rhufeiniaid yn yr ardal. Teithiwyd i fyny rhiw Pâl, a'r Athro Barry Burnham yn cyfeirio'n llygaid at olion wrth ffordd Sarn Helen. Sefyll wedyn wrth Garreg y Bwci cyn mynd ymlaen i Ffarmers. Yno roedd lluniaeth yn aros amdanom ac Elfyn Davies, Toedybryn yn rhoi hanes yr ardal honno. Symud ymlaen wedyn i Bumsaint a chael hanes y cloddio yno yn yr 1970au a'r 80au, ac ar ôl pryd ysgafn ganol dydd, symud eto i'r mwynloddiau a

chael lawer mwy o hanes eto.

Diwrnod yn llawn hanes ar ei hyd, a diolchwyd i'r arweinyddion yn gynnes gan Selwyn Walters am ddiwrnod braf ym mhob ystyr y gair. Edrychwn ymlaen at ddiwrnodau tebyg eto yn y Gwanwyn.

Mae calendr 2016 ar werth am £6 gyda nodiadau hanesyddol ar gyfer lluniau pob mis. Bydd ar werth yn y Ffair Nadolig pan fydd y raffl fawr yn cael ei thynnu hefyd.

Dathlu 18 oed

Pen-blwydd hapus i Leanne James, 55 Penbryn ar ddathlu ei deunaw oed ddiwedd Hydref. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol.

Dymuna Leanne ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau, anrhegion a phob dymuniad da a dderbyniodd. Diolch o galon i chi gyd.

Aelwyd yr Urdd

Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol y tymor newydd yn Ysgol Bro Pedr nos Fawrth 6 Hydref. Paratowyd rhaglen amrywiol ar gyfer yr wythnosau nesaf yn cynnwys dathlu Calan Gaeaf, gêmâu amrywiol a chymryd rhan yn y gamp Cyrlio dan ofal Rhydian. Yna aethpwyd ymlaen i ethol swyddogion fel a ganlyn: Cadeirydd Lowri Aur Davies, Is Gadeirydd Lisa Evans, Ysgrifennydd Elan Jones a Thrysorydd Beca Ann Jones. Cytunodd Geinor Medi a Janet gario mlaen fel arweinyddion a Delun yn cynorthwyo.

I gloi'r noson cafwyd hwyl yn chwarae gêm gyffrous gyda Geinor Medi yn dyfarnu a Janet yn cuddio rhag y bêl!

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Noddfa

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul am 5 o'r gloch nos Sul 8 Tachwedd, ychydig yn hwyrach na'r arfer. Cymerir rhan trwy gyfrwng darlenniadau, gweddïau, sgysiau, grwpiau canu a llefaru gan y plant a'r bobl ifanc yn amrywio o 4 i 18 oed.

Yna, nos Sul 22 Tachwedd eto am 5 o'r gloch cynhelir Oedfa Deulu a rhoddir anerchiad gan Mrs. Delyth Morgans Phillips. Fe fydd yr oedfa hon eto yn gyfle i bawb o bob oed ddod ynghyd i addoli a threfnir gweithgareddau yn y festri i'r plant. Croeso cynnes i bawb i'r ddwy oedfa.

Cwrdd Diolchgarwch

Braf oedd gweld cynulliad teilwng wedi dod ynghyd i'r Cwrdd Diolchgarwch a gynhaliwyd yn Noddfa nos Lun 28 Medi. Croesawyd pawb yn gynnes gan ein gweinidog, y Parchedig Jill Tomos



Will Hughes o Lanbed gyda'i beiriant o gyfnod 1913 yn Sioe Hen Beiriannau Talgarreg a gynhaliwyd ar Fedi 19eg.

yn cynnwys ein pregethwr gwadd, y Parchedig Alwyn Daniels, Trefdraeth a fu ar un adeg yn gwasanaethu'r Bedyddwyr yng nghylch Llambed. Cafwyd ganddo neges amserol a chyfoes yn diolch i Dduw am y cynhaeaf a hefyd am yr holl fendithion a dderbynnir gennym yn feunyddiol. Cyhoeddwyd yr emynau gan Delyth, Ann, Alwena a Llinos a gwasanaethwyd wrth yr organ gan Janet.

Diolchodd y Parchedig Jill Tomos i bawb oedd wedi cymryd rhan.

Cylch Cinio Llambed

Os byddwch fyth mewn cwmni cymysg tua'r canol oed, fyddwch chi ddim yn hir cyn clywed un o'r dynion yn dweud "Wel, wel, mae menywod yn medru siarad."

Wel, yn ddiweddar fe wireddwyd yr honiad yn y modd mwyaf cywir a chywrair. Ble a phryd, meddech chi?

Y lleoliad oedd Clwb Rygbi Llanbed a'r achlysur oedd cyfarfod cyntaf tymor Cylch Cinio Llanbed.

Croesawyd nifer sylweddol ohonom gan y Llywydd, Yr Athro Denzil Morgan. Estynnwyd croeso arbennig i ddau aelod newydd sef y brodyr John Metcalfe a Dafydd Williams ond tristwch oedd cofnodi bod un o aelodau mwyaf ffyddlon y Cylch, sef Eiddug Jones, Gellidewi wedi gorfod ymddiswyddo oherwydd anhwylder. Dymunodd y Llywydd yn dda iddo.

Yn dilyn hyn, fe'n digonwyd â gwledd o ginio blasus wedi ei baratoi a'i weini'n eithriadol gymwys. Medde rhai "Sdim eisiau gwell na hyn". Ond 'roedd gwledd arall gerbron. Cyflwynodd y Llywydd ein siaradwraig wadd sef y foneddiges Heledd Cynwal.

Wyddoch chi beth? Cyn gynted ag y cododd i'n cyfarch, taenodd naws o wresogrwydd ac agosatrwydd tros bawb a phopeth. Cyhoeddodd mai tipyn o'i hanes a fyddai dan sylw a dechreuodd ddatguddio cynnwys

y parseli oedd ganddi. I'r golwg daeth helm a llusern glawr ynghyd ag eglurhad eu bod yn rhan o fywyd gwaith ei theulu. Clywsom bod dau ohonynt, trwy drugaredd gwyrdhiol, wedi osgoi angau yn nhrallod echrydus Senghennydd.

Wedyn, clywsom ddatganiad unigryw gan ei thad-cu y diweddar D C Evans yn canu Hen Wlad Fy Nhadau - profiad teimladwy yn enwedig o gofio am lwyddiant y tîm Rygbi Cenedlaethol. Ymlaen wedyn a thrwy gyfrwng cerdd a chymeriad, cyflwynodd ffeithiau'n ffraeth a ffrwythlon. Hyfryd oedd clywed Heledd yn canu penillion o'i gwaith ar yr alaw Tra Bo Dau yn y dull canu Plygain. Roedd llygaid a chlustiau pawb wedi eu hoelio arni. Dyma un oedd yn siarad â ni yn hytrach nag aton ni. Unig ddiplastyd y noswaith oedd ei gweld yn dod i ben ond yn amlwg, roedd ei hetifeddiaeth ar ddwy ochr y teulu yn golygu llawer iddi.

Diolchodd ein hysgrifennydd siaradwyr, y Bon Twynog Davies, i Heledd yn gynnes a huawdl a mawr oedd ei haeddiant hi.

Noswaith hwylus dros ben a oedd yn argoeli'n dda am dymor eithriadol yn hanes y Cylch. Does dim ond angen cael cip ar y rhaglen i gadarnhau'r gobeithion.

Urdd y Benywod, Brondeifi

Agorodd tymor newydd Urdd y Benywod, Brondeifi gyda'r gynlledfa yn gwneud ymarferion Cervedd fel Teigr. Ein harweinyddes oedd Marye Wyvill. Mae Marye yn dysgu pobl sut i edrych ar ôl eu hesgryn ac osgoi osteoporosis, lleihau effeithiau llid y cymalau a theimlo yn fwy bywiog.

Roedd digon o lawenydd a chwerthin ymysg y cwmni y noson honno, ond mae ymchwil a phrofiad tu ôl i'r ymarferion. Meddyliwch am y gofodwyr yn gweithio ar yr orsaf ofod am fisoedd mewn amgylchedd

Llanbedr Pont Steffan

heb ddisgyrchiant, peth sy'n achosi i'w hesgryn wanhau, ac fe fyddwch yn deall y broblem. Felly trodd NASA at arbenigwraig yn y maes, Ruthy Alon, i ddyfeisio ymarferion i wrthweithio effeithiau byw heb ddisgyrchiant ac i gadw'r gofodwyr yn heini. Y canlyniad oedd Bones for Life / Esgryn am Oes ac mae Marye Wyvill wedi astudio a chael cymwysterau er mwyn dysgu'r ddull hwn o ymarfer corff.

Mae'r ymarferion yn syml, ac yn addas i bobl hŷn. A dweud y gwir, mae'r ymarferion mor syml, mae'n anodd credu eu bod nhw mor effeithiol. Ond ar ôl sawl cynnig i godi o'r gadair gan bwysio ar y dynau gyda'r migyrnau wedi eu croesi, roeddwn yn teimlo'r cyhyrau'n flinedig. Mae'r cyhyrau yn denu'r gwaed at yr esgryn ac yn eu cadw'n iachus. Er mwyn rhoi cyfle i ni ymlacio, roedd Marye wedi paratoi sioe i ni ar y cyfrifiadur i ddangos sut mae'r ymarferion yn gweithio. Wrth y cyfrifiadur i gynnig help technegol roedd partner Marye, sef Rajesh David.

Mae Marye a Rajesh yn byw yn Llanbed, yn ddysgwyr Cymraeg, ac yn aelodau fyddlon o grŵp CYD Llanbed. Mae'n deymged i'w hymdrech fod y cyflwyniad drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddau yn athrawon yoga gyda bron ddeugain mlynedd o brofiad yn y maes rhyngddynt. Rhoddwyd diolch iddynt gan Deborah Angel. Dyna agoriad braf a ddiddorol i gyfarfodydd Urdd y Benywod Brondeifi dros aeaf a gwanwyn 2015/2016!

Ym mis Tachwedd byddwn yn croesawu Elin Williams a fydd yn siarad ar y pwnc Dadansoddi Llawysgrifen. Croeso i bawb ymuno gyda ni ar y 12fed am 7:30y.h.

Diolch

Dymuna Gwenda Smith, Kings Mead, ddiolch o waelod calon i'w theulu, ffrindiau a chydabod am y cardiau, anrhegion a'r galwadau a dderbyniodd o ganlyniad i'w thriniaeth lawfeddygol yn ddiweddar. Gwerthfawrogir pob caredigrwydd yn fawr.

Cyfarchion pen-blwydd

Pen-blwydd hapus a phob dymuniad da i Mrs Bronwen Jacob sy'n dathlu pen-blwydd arbennig yn ystod y mis.

Merched y Wawr

Wrth agor ein ail gyfarfod y tymor mi wnaeth ein Llywydd, Ann Bowen Morgan groesawu aelod newydd sef Shan Jones. Mi aeth ymlaen i ddymuno gwellhad buan i aelod arall sef Aerwen Griffiths. Mi wnaeth longyfarch Dinah am gynhyrchu rhaglen arbennig am fywyd T. Llew Jones a diolch hefyd i Elin am ei

gwaith graenus gyda'r Parti Llefaru, nid y unig yn ystod y flwyddyn ond hefyd yn yr Ŵyl flynyddol dechrau Medi. Soniodd am y cinio ym Mwyty Gareth Richards ar Dachwedd y nawfed a holwyd i bawb dalu Eryl Jones ymlaen llaw. Atgoffodd yr aelodau am y Cwis Hwyl ar 13 Tachwedd a'r Cwrs Celf a Chrefft yn Neuadd Felinfach ar y 14eg. Fe aeth ymlaen i sôn am y Ffair Aeaf a Chystadlaeth Cardiau Nadolig 2016. Yna mi groesawodd ein gwesteion am y noson, sef Cyril Jones a Philip Hickin. Mae'r ddau ynghyd â Dave Austin wedi cydweithio ar gyfrol yn dwyn y teitl Hud Afon Arth, sef casgliad o ddarluniau gan Phil a cherddi gan Cyril am ddyffryn afon Arth rhwng Pennant ac Aberarth. Roedd hoffter y ddau at yr ardal yn amlwg yn nelweddau trawiadol Phil a ymddangosodd ar sgrin ac yn y cerddi gwych gan Cyril yn ymwneud â phob llun. Cafodd Cyril ei fagu yn Nyffryn Arth ac mi wnaeth gyfarfod â Phil wedi iddo symud o Loegr i fyw yn ei hen gartref ym Mhennant yn 2010. Mae Cyril wedi ennill coron yr Eisteddfod Genedlaethol ac wedi cyhoeddi sawl llyfr. Mae'n ddarlithydd ac yn feirniad cenedlaethol. Arlunydd yw Phil ac mi wnaeth astudio Celfyddyd Gain ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae wrthi yn dysgu Cymraeg a diddorol oedd clywed Cyril yn dweud fod Phil wedi ei siarsio i beidio â siarad dim Saesneg ag ef er mwyn iddo ddod i ddeall Cymraeg yn well. Yn wir, hwn oedd ei brofiad cyntaf o siarad Cymraeg yn gyhoeddus ac mi wnaeth yn rhugl iawn, chwarae teg iddo. Diddorol oedd clywed Phil yn sôn am y modd y mae'n mynd ati i greu'r lluniau sy'n cymryd sawl diwrnod i'w cwblhau ac roedd eu manylder yn rhyfeddol.

Cafwyd llawer o hwyl yn gwrando ar Cyril yn adrodd straeon doniol am ei blentyndod yn cynnwys hanes Pont y Brodyr a Mari Berllan Bitter, cymeriad lliwgar iawn! Mwynhawyd cyflwyniad gan fardd ac arlunydd o fri a oedd yn wledd arbennig i'r llygad ac i'r glust. Diolchodd Dinah i'r ddau am ddod â hanes y gorffennol i ni mewn ffordd fodern a hwylus dros ben. Gwynfil, Brenda a Glesni fu'n gyfrifol am y te a'r bisgedi a enillydd y raffl oedd Eiry Bryn Steffan. Enfys Hatcher fydd ein siaradwraig wadd ym Mwyty Gareth ar Dachwedd y 9ed.

Shiloh a Soar

Daeth tyrfa luosog iawn ynghyd, y mwyaf efallai ers blynyddoedd i fwynhau Swper y Cynhaeaf yn y festri yn Shiloh ar nos Iau Hydref 29ain. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd Philip Lodwig. Yn ôl yr arfer, mwynhawyd pryd rhagorol o fwyd wedi ei baratoi gan



Aelodau o bwyllgor Cneifio Llanbed ynghyd a ffrindiau yn cyflwyno siec tuag at Apêl Motor Neuron yn eu cinio blynyddol yng Nghlwb Rygbi Llanbed.

wragedd y ddwy Eglwys a da oedd profi y cydweithrediad hapus wrth weini wrth y byrddau.

Yn diddanu eleni roedd y ddwy ffrind o Gwmann sef Elan a Beca ac mi gafwyd orig hyfryd o ganu a llefaru yn eu cwmni. Yn cyfeilio roedd ei hathrawes gerdd Eirian Jones a da oedd clywed gymaint o ddarnau cyfoes yn cael eu canu. Hyfryd oedd clywed bod y ddwy wedi cael eu derbyn i ganu gyda "Only Kids Aloud" a bydd hyn yn help i ehangu eu profiad cerddorol yn fawr iawn. Mam Elan sef Llinos a gyflwynodd yr eitemau a hynny mewn ffordd gwbl hamddenol a chartrefol.

Huw Jenkins gafodd y fraint o ddiolch ac mi wnaeth hynny yn huawdl fel arfer wrth ddiolch i Elan a Beca am ein diddanu mor hyfryd ac am fod yn perthyn i genedl sydd yn meddu ar gymaint o dalentau. Mi aeth pawb adref yn hapus wedi eu digoni yn llwyr gyda'r teimlad fod yna gychwyn rhagorol wedi bod eleni eto i dymor y Gymdeithas Ddiwylliadol.

Ian Trundle yn ymweld â Llanbed.



Ian Trundle gyda'r chwaraewyr 8-10 oed

Yn eisiau

Gofalwraig i gadw cwmni i wraig oedrannus yn nhref Llanbed am brynhawnau yn ystod yr wythnos.

Telir cylog am ddwy awr o waith, rhwng 2 a 4 y pnawn.

Cysyllter â 07792 823837 neu 07876 353321

Gofynnir am gyfraniad o

£5

yn unig er mwyn rhoi neges o ddiolch ym Mhapur Bro Clonc os gwelwch yn dda.

Gorsgoch



Ar y llwyfan plant Ysgol Llanwenog [uchod] a phlant Ysgol Cwrtnewydd [chwith] gyda'u cyfraniadau yn noson ail agor Neuadd yr Hafod ar nos Wener, Hydref 23ain.



Ar y llwyfan Côr Lleisiau'r Werin dan arweiniad Elonwy Davies yn noson ail agor y Neuadd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Eurwen a Gwilym Evans, Gwynfryn ar golli ei chwaer Madge allan yng Nghanada.

Diolch

Dymuniad Jean Evans, Llwyn-y-gog yw diolch yn ddiffuant iawn i bawb am yr holl ddymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed yn ystod mis Hydref. Bu yn ffodus i dderbyn pentwr o gardiau ac hefyd anrhegion a blodau hyfryd iawn. Gwerthfawroga y cyfan yn fawr iawn.



Enfys Hatcher, C.Ff.I. Llanwenog yn ennill yr Unawd Alaw Werin 26 oed neu iau a Gwawr ei chwaer yn 3ydd yn Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion yn ddiweddar.

Cwrtnewydd

Colled

Yn ystod mis Medi fe gollwyd un o drigolion hynaf y pentref pan glywyd am farwolaeth David [Dai] Richards, Elmo yn 95oed. Cydymdeimlir yn ddwys iawn gyda Jean, Wenella a'r teulu i gyd yn eu colled [gweler hefyd o dan Cwmsychpant].

Diolch

Dymuna teulu y diweddar Mrs Catherine Jane Davies, Glennydd ddiolch am bob caredigrwydd a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth ddiweddar.

Dymuna Nanna, Garth ddiolch o galon i'r perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob help ar ôl dod adref o'r ysbyty ar ôl derbyn llawdriniaeth. Hefyd am y llu cardiau, rhoddion a

galwadau ffôn. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Ar wellhad

Gobeithio fod Mrs Ray Evans, Brynhogfaen yn well yn dilyn ei hanffawd gartref ac fe fu yn Ysbyty Glangwili am rai dyddiau yn dilyn hynny ac hefyd i Alan Jones, Penlanfach a gafodd driniaeth ar ei lygad yn ystod y mis.

Neuadd yr Hafod,
Gorsgoch
Nos Iau, 26 Tachwedd
2015
6.00 – 8.00
Lansio llyfr
'Hunangofiant Hen
Labrwr'
Gan Tommy Williams,
Nant fach, Alltyblaca.
Dewch am sgwrs a phaned

Rhifyn Rhagfyr
Yn y Siopau
Rhagyfr 3ydd
Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Tachwedd 23ain

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtnewydd



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphoto restoring.com

Osian Potter
Toio a Gwaith Saer

Adeiladau Newydd · Ail-doi
Ffasgiau, Soffitau a Chafnau
Gwaith Simnai · Gwaith Plwm
Saer Coed

07816 869 047 · 01570 471 749
osianp@btinternet.com

Cymwys, 14 Blynedd o Brofiad, Geirda ar Gael

ANDREW JAMES
PLYMWR PROFIADOL

Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat

Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pympiâu Gwres o Ffynonhellau'r
ddaeir a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau

01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Drefach a Llanwenog

Ysgol Llanwenog

Braf oedd llongyfarch tîm pêl droed yr ysgol sef Jamie, Sion, Sam, Dewi, Rhodri a Harri wrth iddynt ennill cystadleuaeth 5 bob ochor cylch Llanbed a drefnwyd gan Fudiad yr Urdd. Da iawn chi, fechgyn!



Cafwyd prynhawn hyfryd ar yr 2il o Hydref lle bu y Cyngor Ysgol yn gyfrifol am drefnu prynhawn coffi er mwyn codi arian ar gyfer Cancer Cymru a Meddygfa Llanybydder. Daeth nifer helaeth i'n cefnogi. Casglwyd £347.26, cyfanswm anrhydeddus dros ben. Diolch yn fawr i bawb am eu cyfraniadau.

Bu Jamie a Sion ar hyfforddiant Llysgenhaden yn ddiweddar. Braf yw gweld eu bod yn defnyddio'r sgiliau yma yn arbennig wrth gynorthwyo gyda chwaraeon a gweithgareddau clwb yr Urdd ar ôl ysgol.

Cafwyd bore o hwyl a sbri yng nghampws yr ysgol hŷn ym Mro Pedr. Yno, bu plant y Cyfnod Sylfaen yn canu ac yn dawnsio yng nghwmni Gwenda Owen yn y sesiwn Sbri-di-ri. Gwelwyd Twm Tisian hefyd. Roedd pawb wrth eu boddau.

Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen flas ar seremoni fedyddio yn Eglwys Llanwenog yn ddiweddar. Bu'r Ficer Suzie yn arwain y plant drwy'r gwasanaeth arbennig yma. Cafodd help gan rai o'r disgyblion wrth iddynt fod yn rhan o wasanaeth bedyddio doli Ela Jess! Diolch yn fawr i'r Ficer Suzie am roi o'i hamser i drafod ac esbonio'r gwasanaeth arbennig yma. Diolch hefyd i Mrs Nerys Vobe am drefnu pob dim.

Ddydd Iau yr 22ain o Hydref, cafwyd diwrnod coch, gwyn a gwyrdd yn yr ysgol. Trefnwyd y diwrnod gan Gyngor yr Ysgol. Bu'r disgyblion yn gwisgo dillad lliwgar, yn addurno bisgedi, arlunio a mwynhau sesiwn chwaraeon bendigedig o dan arweiniad Sion a Jamie.

Cawsom ein cwrdd diolchgarwch yn Eglwys Llanwenog ar y 23ain o Hydref. Braf oedd gweld cynifer o rieni a ffrindiau yno i wrando ar y perfformiad. Cafwyd prynhawn hyfryd wrth i bob un disgybl roi o'u gorau glas. Cyflwynwyd ffrwythau a llysiau yn ystod y gwasanaeth. Fe fydd rhain yn cael eu rhoi i gartref henoed Maes-y-Felin. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan Ficer Suzie. Hoffem ddiolch i aelodau'r Eglwys am eu parodrwydd a'u cefnogaeth wrth ganiatáu i ni ddefnyddio'r adeilad arbennig yma. Diolch hefyd i Pauline am gyfeilio yn ystod y gwasanaeth. Diolch i Mrs Eirlys Jones a Mrs Nerys Vobe am drefnu'r oedfa hyfryd yma.

Bu plant yr ysgol hefyd yn perfformio yn y cyngerdd i ail agor Neuadd Cefn Hafod. Cafwyd noson dda iawn.

Eglwys Santes Wenog

Daeth nifer dda o ffrindiau ac aelodau i Wasanaeth y Cynhaeaf ar y 5ed o Hydref, a chafwyd pregeth dymhorol gan y Parchedig Ddoctor Barton, darlithydd ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant Llambod. Wedi'r oedfa, mwynhawyd swper bendigedig wedi ei baratoi gan y gwragedd, a thalwyd diolch i bawb a gyfrannodd at y noson gan y Ficer, Suzie Bale.

Trist yw cofnodi marwolaeth Mr Roger Clive-Powell. Cydymdeimlwn yn fawr â'i wraig Jen, a'r teulu cyfan. Roedd Roger yn un o ddisgynyddion hen deulu parchus y Cynol Davies-Evans, Plas y Dolau, neu Highmead. Blwyddyn yn ôl daearwyd gweddillion ei fam ym mynwent yr Eglwys.

Pensaer yn adnewyddu a diogelu hen adeiladau ac addoldai hanesyddol oedd prif waith Roger, ac mae Eglwys Llanwenog yn dyst i'w arbenigedd yn y maes yma. Talwyd teyrnged anrhydeddus iddo am ei waith yn y Ddeoniaeth gan yr Hybarch Hywel Jones, tra bu tri ffrind yn adrodd eu hatgofion hapus a phleserus am gwmni Roger. Gŵr hamddenol, hoffus a diymhongar oedd yr ymadawedig, a gwelwn ei eisiau yn fawr. Roedd yr Arglwydd Raglaw Robin Lewis yn bresennol, yn cynrychioli Tywysog Cymru. Y Parchedig Suzie Bale oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth, a Mrs Pauline Roberts-Jones oedd yr organyddes.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch plant Ysgol Llanwenog brynhawn dydd Gwener y 23ain o Hydref. Diolch i'r staff am eu paratodau ac i'r plant am eu cyflwyniadau arbennig.

Gwnaed elw o £212 mewn noson Bingo a gynhaliwyd yn Nhafarn Cefnhafod, Gorsgoch. Diolch i Mr a Mrs Geraint Hatcher am eu croeso ac i bawb am eu cefnogaeth.

Dymunwn wellhad buan i bawb sy'n anhwylys yn eu cartrefi neu mewn ysbyty.

Canlyniadau'r Clwb 100 yn y rhifyn nesaf.

Diolch

Dymuna Daniel a Mary Thomas, Ffosffald, ddiolch i'r teulu, cymdogion, ffrindiau a Chôr Lleisiau'r Werin am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Aur. Gwerthfawrogwn eich haelioni'n fawr iawn.

Sefydliad y Merched



Wrth ddathlu canmlwyddiant y Sefydliad, aeth Cangen Llanwenog i gael te arbennig yn y Daffodil, Penrhiwllan, a hyfryd oedd cael cwmni a chymdeithasu â sawl cangen gyfagos o SyM.

Y gŵr gwadd oedd y Cyng. Chris Thomas, Maer Llambod, a'r Faeres. Diolch yn fawr iddo am ei rodd hael i'r ACWW, elusen SyM, a chafwyd anerchiad diddorol a phwrpasol ganddo.

Yn anffodus, roedd dwy o aelodau sylfaenol Cangen Llanwenog yn methu â bod yn bresennol, sef Mrs Annie Bowen a Mrs Bronwen Jones; anfonwn ein dymuniadau gorau atynt, y ddwy wedi ymgartrefu erbyn hyn yn Hafan Deg.

Ym mis Hydref y siaradwr gwadd oedd Olive o 'Pethau Olyv'. Dwy nyrs yn cydweithio mewn ysbyty Iechyd Meddwl oedd Olive ac Yvonne ac ar ôl ymddeol sefydlwyd busnes ganddynt ar y cyd. (Mae 'Olyv' yn gyfuniad o'u henwau). Maent yn gwerthu amrywiaeth o bethau diddorol fel bagiau, gemau a sgarffiau ac mae'r elw i gyd yn mynd at achos da. Cafwyd noson ddiddorol yn ei chwmmi ac ambell i anrheg Nadolig cynnar yn y fargen!

Y Gymdeithas Hŷn

Dechreuodd cyfres cyfarfodydd y gaeaf ym mis Hydref, gan gwrdd yn Festri Capel Bethel Drefach. Croesawyd yr aelodau gan Dilwen George, y Cadeirydd, cyn estyn cydymdeimlad at deulu'r diweddar Mary Davies, Awel Teifi, ac ag Eirwen Evans, Gorsgoch wedi iddi golli chwaer, a Jean Evans, Llwynygog ar ôl colli ei brawd-yng-nghyfraith.

Dymunwyd yn dda i Nanna Jones wedi ei llawdriniaeth, ac estynnwyd cyfarchion pen-blwydd i Mair Williams yn 90oed a Jean Evans yn 80 mlwydd oed. Roedd aelod arall yn dathlu Priodas Aur, sef Mary a Daniel Thomas, Ffosffald, - llongyfarchiadau gwresog iddynt hwythau.

Aed ymlaen wedyn i gynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol: caed braslun o'r hyn a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn gan y Cadeirydd, gan ddiolch i bawb am y trefniadau a phresenoldeb yr aelodau. Rhoddwyd adroddiad trylwyr o'r ochr ariannol gan Brenda Jones, y Trysorydd, a'r fantolen yn llewyrchus.

Nid oedd enwebiadau ar gyfer swyddogion newydd, ond dymuniad Nanna

Llanwenog



Anrhydedd

Cyflwynwyd i Mrs Nans Davies, Bryndolau lywyddiaeth Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru yn ddiweddar mewn cwrdd arbennig yng Nghapel y Bryn. Bydd Nans yn Llywydd am y 2 flynedd nesaf. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da yn ystod dy amser yn Llywydd.

Jones oedd ei bod yn rhoi'r gorau i'w swydd yn anfon cardiau achlysurol at aelodau. Diolchwyd yn gynnes iddi gan y Cadeirydd am ei gwaith cyson dros y ddegawd diwethaf. Cytunodd Sulwen Lloyd i dderbyn y swydd, a chynigiwyd bod y swyddogion eraill yn cael eu hail-ethol, a hynny'n unfrydol.

Cynigwyd enwau ar gyfer siaradwyr y gaeaf, a'r ysgrifennydd i drefnu.

Roedd te a lluniaeth wedi eu paratoi gan chwiorydd Capel Bethel a diolchwyd iddynt gan Yvonne Davies.

Bydd y cyfarfod nesaf dydd Mercher, Tachwedd 11eg, yng Nghapel Brynteg am 1.30 yp pan fydd Miss Glesni Thomas, Aberystwyth yn rhoi hanes Gwenogfryn Evans.

Llanwnnen

Cydymdeimlo

Daeth ton o dristwch i'r pentref ac i'r ardal pan glywyd bod Mr Bill Cooper, o Aberaeron, cyn Bost-feistr parchus Llanwnnen wedi huno yn dilyn brwydr galed yn erbyn afiechyd. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r holl gysylltiadau teuluol, sef Barbara ei wraig, Richard a Stephen y meibion a'u teuluoedd i gyd.

Hefyd yn ystod y mis daeth y newyddion am farwolaeth Mrs Ray Thomas, Berllan, Bro Cadarn neu [Ray Castell Du i bawb a oedd yn ei hadnabod] yng nghartref Blaendyffryn, Llandysul. Danfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at y meibion Dai, Llew, Gwyn [priod ei diweddar ferch] a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli un a oedd mor annwyl gan bawb.

Gwellhad Buan

Treuliodd Mrs Magw Hughes, Pantdderwen gyfnod yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar. Gobeithio eich bod yn teimlo rywfaint yn well erbyn hyn.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Alaw Jones, Blaenwaun-ganol, a'i ebol, Grannell Baileys, ar ennill Pencampwriaeth yr Ebolion Rhan-frid (part breed) mewn sioe swclod ym Mhenparc, Silian yn ddiweddar. Trefnwyd y sioe gan gangen Ceredigion o Gymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig a chafodd Granell Baileys ei arddangos yn y gystadleuaeth gan Eirian Thomas, Llysfaen-isaf.

Llenor o Fri

Llongyfarchiadau i Luned Jones, Blaenwaun-ganol ar ennill Cadair Eisteddfod Clybiau Ffermwyr Ifainc Sir Gâr yn ddiweddar. Mae Luned yn aelod o Glwb Ffermwyr Ifainc Llanllwni a hi yw'r aelod cyntaf o'r clwb i ennill y gadair. Daeth Luned i'r brig am ysgrifennu ymson a derbyniodd gadair hardd a oedd wedi'i chyflwyno gan Meinir Howells, Cadeirydd y Sir. Yn ystod y seremoni, cafodd Luned y fraint o fod y cyntaf i eistedd mewn cadair goffa a gyflwynwyd at ddefnydd y mudiad er cof am Mrs Ann Lewis. Mae'r ardal gyfan yn ymfalchïo yn dy lwyddiant a phob dymuniad da i ti yn Eisteddfod Cymru cyn diwedd y mis.

Diolch

Dymuna Luned, Blaenwaun-ganol ddiolch yn ddiffuant am yr holl gardiau, y negeseuon a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn sgil ei llwyddiant yn Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr. Diolch hefyd am y cardiau, y rhoddion a'r cyfarchion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ddiwedd mis Medi.

Dymuna Daniel Davies, 3 Bro Grannell ddiolch i bawb am y llu cardiau a'r dymuniadau gorau a'r anrhegion a dderbyniwyd adeg dathlu fy mhen-blwydd yn 18 oed yn ystod mis Medi.

Pen-blwydd arbennig

Diwedd mis Hydref dathlodd Delyth Jones, 4 Bro Cadarn ben-blwydd arbennig. Gobeithio eich bod wedi joio eich diwrnod sbesial.

Dacw Mam yn Dwad

Pantomeim Cymraeg a Chymreig newydd sbon.

Am y tro cyntaf, ar ôl 12 mlynedd o greu pantomeimiau yn yr iaith Gymraeg, bydd y diddanwr plant poblogaidd o Bontypridd, Martyn Geraint, yn troi'i gefn ar straeon cyfarwydd y panto ac yn creu sioe newydd sbon wedi'i hysbrydoli gan yr hwiangerdd Gymraeg adnabyddus i blant – 'Dacw Mam yn Dwad'.

Bydd y cymeriadau adnabyddus fel Dafi Bach, Sioni Brica Moni, y fuwch yn y beudy, y llo a'r mochyn bach, yn ganolog i'r stori, ynghyd â'r fam. Ond mae'r stori ychydig yn wahanol i'r panto arferol.

Meddai Martyn Geraint: "Ar ôl siarad gyda nifer o bobl ar hyd a lled Cymru, dwi 'di newid pethe rhywfaint eleni, a chreu sioe sy'n llawer fwy Cymreig o ran naws a neges, a sy' ddim yn ddibynol ar fachgen ifanc sy'n gorfod cael lot o arian cyn gallu priodi'r dywysoges hardd!

Yn ymuno gyda Martyn eto eleni fydd Gwion Aled o Lanrwst, ac yn troedio llwyfan y pantomeim am y tro cyntaf, bydd Anni Dafydd o Lanbed, Gareth Elis o San Clêr a Heledd Gwynn sy'n wreiddiol o Grymch. Yn cyfarwyddo eto eleni fydd yr actor a'r cyfarwyddwr theatr, Gareth John Bale.

Bydd taith 'Dacw Mam yn Dwad', sydd wedi derbyn cymhorthdal gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yn cychwyn yn Theatr y Congress, Cwmbran ar Dachwedd 17, ac yn gorffen, yn dilyn ymweliad â 17 o wahanol theatrau a neuaddau ledled y wlad, yn Neuadd Pontyberem ar Rhagfyr 18fed.

Bydd pob ysgol fydd yn mynychu'r panto eleni, yn hytrach na derbyn rhaglen, yn cael CD o ganeuon 'Dacw Mam yn Dwad', sy'n cynnwys cyfres o ganeuon newydd fydd yn gymorth i blant ddysgu tablau 2, 3 a 4.

Am wybodaeth pellach, cysylltwch â Martyn Geraint ar 07837 388895 neu e-bostiwrch mg4799@btinternet.com

Bydd y panto yn Theatr Mwldan, Aberteifi ar 30 Tachwedd (1.00y.p + 6.30y.h) ac ar 1 Rhagfyr (10.00y.b. + 1.00y.p).

Clonc - Ers pryd wyt ti'n actio, ac oes yna rywun yn lleol sydd wedi bod yn ddylanwad mawr arnat ti?

Anni Dafydd - Dwi'n cofio Mrs Ann, Prifathrawes yn fy ysgol gynradd yn dweud fy mod wedi mynnu canu 'Dau gi bach' yn y gwasanaeth boreol o flaen pawb ar fy niwrnod cynta' yn yr ysgol. Mae'n siŵr fod yr arwyddion yna yn gynnar iawn taw perfformwraig fyddwn i! Dw' i 'di bod yn rhan o CIC, Cadw Sŵn, Ysgol Berfformio Dyffryn Tywi a Theatr yr Urdd ac roedd pob un o'r profiadau hynny wedi dysgu rhywbeth gwahanol i fi. Mae gormod o bobol i'w henwi!

Clonc - Beth yw dy atgofion di o fynd i'r panto?

Anni Dafydd - Mae Panto blynyddol Theatr Felin-fach wedi'i hoelio yn fy nghof. Roeddwn wedi dotio ar y berthynas ffrath rhwng Dalis a Dalis ac o'n i'n hoff iawn o'r dynion drwg. Y peth mwyaf hudolus am unrhyw banto yw'r gallu i gynnwys y gynulleidfa ac felly ma'r gynulleidfa yn cael gymaint o ddylanwad ar y perfformiad.

Clonc - Dwed ychydig wrthon ni am y rhan fyddi di yn ei chwarae.

Anni Dafydd - Fe fydda'i yn chwarae rhan Mari Parri, merch fferm sy'n ffrindiau mawr gyda'r anifeiliaid i gyd. Mae'r ddrama'n seiliedig ar stori Eileen a Trefor Beasley ac mi fydd Mari, ei mam a'i ffrind gorau, Dafi Bach yn trio arbed y fferm rhag cael ei chipio gan y bwmbellïaid.

Clonc - Beth wyt ti'n edrych ymlaen ato fwya am weithio ar banto MG?

Anni Dafydd - Mae cael gweithio gydag actorion a cherddorion o fri yn uchel ar fy rhestr!



Yn y Gegin gyda Gareth



Amser yn brin, - a'r bola am bwddin!

Dyna yw thema'r gegin y mis yma - creu pwdinau cyflym. Gyda'r tywydd yn oeri, mae chwant am bwddin cynnes yn temtio, felly beth am greu rhai sydyn trwy ddefnyddio cynhwysion parod - a chafflo pawb!

Ydy, mae'n rhoi pleser a boddhad i gymysgu, briwsioni a churo wrth ddilyn rysait, ond mae'r cloc yn tician a rhaid arbed amser. Dyma gasgliad o bwddinau di-stress, dim ffws ond hyfryd, - yn barod mewn dim o dro. Rhowch gynnig ar y cyfan.

Gareth

Pwddin Pancws

Cynhwysion

300g Nutella
150 ml hufen
3 llond llwy fwrdd rym
1 pecyn o bancws parod
70g cnau cyll wedi rhostio



Dull

1. Trowch y ffwrn i 180° F
2. Gosodwch y siocled, hufen a'r rym mewn sosban a chynheswch i doddi.
3. Rhowch un bancwsen mewn tun pobi crwn, yna ychydig o'r saws. Defnyddiwch weddill y pancws a'r saws i greu haenau, gan orffen â'r saws siocled. Sgeintiwch â'r cnau
4. Pobwch am 20 munud. Tynnwch o'r tun a'u gweini â crème fraiche.

Pwddin Reis Cyflym

Cynhwysion

1 tun o hufen coconyt
300 ml hufen
1 llwy de sinamon
2 becyn o reis blas coconyt wedi eu coginio mewn 'clustog cae'dig'.




Dull

1. Cynheswch yr hufen coconyt, hufen a'r sinamon mewn sosban. Berwch am tua 3-4 munud.
2. Ychwanegwch y reis a'i goginio am tua 4 munud nes ei fod yn hufennog a thrwchus.
3. Rhennwch mewn dysglau gyda mango ac ychydig o gnau pistachio wedi eu malu.

Crymbl Aeron ac Almwn

Cynhwysion

500g o aeron cymysg wedi'u rhewi
4 afal bwyta wedi'u ciwbio
3 llwy fwrdd o siwgr
75g o gnau cymysg
300 g o flawd plaen
50g siwgr
175g menyn
100g marzipan wedi'i falu.



Dull

1. Trowch y ffwrn i 180°F / fan 160°, Nwy 4
2. Gosodwch y ffrwythau mewn dysgl pobi, a sgeintiwch â siwgr.
3. Rhowch y blawd a'r siwgr mewn powlen. Toddwch y menyn mewn sosban a'i gymysgu i'r blawd i greu effaith cerrig mân. Plygwch y cnau a'r marzipan i mewn iddo.
4. Gorchuddiwch y ffrwythau â'r crymbl. Pobwch am tua 45 munud.
5. Gweinwch â chwstard.

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd



Daeth y Parchedig Wyn Thomas i'r ysgol i ymweld â phlant y Cyfnod Sylfaen lle bu'n sôn wrth y plant am fedyddio. Cynhaliwyd bedydd bach yn yr ysgol. Roedd y plant wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn.

Mae hanner tymor arall wedi hedfan heibio ym mywyd yr Ysgol yma yng Nghwrtnewydd. Bu plant blynyddoedd 4, 5 a 6 yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth bêl droed 5 pob ochr yr Urdd yn y Ganolfan Hamdden yn Llanbed. Cafwyd gemau arbennig a gorffennodd y tîm yn yr ail safle, llongyfarchiadau mawr i chi gyd!

Trefnodd plant y Cyngor Ysgol brynhawn Macmillan ar Fedi'r 24ain a braf oedd gweld y neuadd yn orlawn a phawb yn barod iawn i gyfrannu tuag at yr elusen. Codwyd swm arbennig iawn o £488.70. Diolchodd Lisa Jenkins, cadeiryddes y Cyngor Ysgol, i bawb am eu cefnogaeth ar ddiwedd y prynhawn hwylus.

Aeth Alaw Jones a Lisa Jenkins am ddiwrnod o hyfforddiant i fod yn Llysgenhadon Efydd yr Ysgol. Erbyn hyn mae'r ddwy wrthi yn rhoi sesiynau sgiliau chwaraeon i weddill plant yr ysgol bob wythnos yn ystod amser cinio.

Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn ffodus iawn i gael cymryd rhan mewn gweithgaredd Sbri-diri a drefnwyd gan yr Urdd. Cafwyd bore o ganu a dawnsio yng nghwmni Gwenda Owen. Mwynhaodd y plant y profiad.

Mae plant blynyddoedd 4, 5 a 6 wedi bod yn derbyn gwersi beicio'n wythnosol ac erbyn hyn wedi pasio eu harholiad. Da iawn, pob yr un ohonoch!

Mae clwb yr Urdd yn rhedeg yn wythnosol yn yr ysgol. Mae'r plant wedi cael amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys chwaraeon, blasu bwyd, cyfrifiaduron, DVD a chelf Calan Gaeaf.

Cynhaliwyd ein Cwrtdd Diolchgarwch ar ddydd Iau olaf yr hanner tymor. Ymunodd y rhieni a ffrindiau'r ysgol â ni yn y cwrtdd. Dosbarthwyd ffrwythau a llysiau i Gartref Preswyl Maesyfelin, Drefach.

Ymunodd holl bant yr ysgol yn niwrnod coch, gwyn a gwyrdd yr Urdd a chodwyd swm da o arian at waith yr Urdd yng Ngheredigion.



Mae plant cyfnod allweddol dau yn derbyn gwersi Bible Explorer gan Gorden a Christine. Mae'r plant yn mwynhau'r profiad yn fawr iawn.




Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

*Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partïon*

Enwau Lleoedd Lleol

O GWMPAS PARC-Y-RHOS (i)

Rai wythnosau nôl bellach roedd cynulleidfia barchus wedi ymgynnull ym Methel, Parc-y-rhos, i ddathlu 175 mlynedd adeiladu'r capel bach. Trefnodd Alun Jones, Glan-rhyd, arddangosfa ddeniadol yn y capel i gyd-fynd â'r gwasanaeth dathlu ar Fedi 6ed. Roedd amryw byd o drysorau wedi eu casglu at ei gilydd ar gyfer yr arddangosfa - llawer iawn ohonyn nhw o gasgliad teuluol Glan-rhyd a Parc-y-rhos House. Roedd darnau eraill wedi eu benthycu gan aelodau'r capel a chan gyfeillion yr achos.



Cyfrwl wedi ei rhwymo â chardfwrdd llwyd a aeth â'm sylw i. Roedd wedi'i benthycu gan Mrs Elonwy Davies, Llanybydder. Y cynnwys oedd manylion, cynlluniau, mapiau ac amodau gwerthiant eiddo ym mhlwyfi Llanwenog, Llanwnnen, Pencarreg, a Llanybydder (bron y cyfan o dref Llanybydder yn ôl y ddogfen hon). A'r cyfan i'w gwerthu

LOT 97. COLOURED GREEN ON THE PLAN. THAT VERY DESIRABLE FREEHOLD FARM, CALLED GELLYWROL.					
Situate adjoining Lots 96, 98, and 104, and intersected by the Turnpike road leading from Lampeter to Llanfory, and distant about 2½ miles from the town of Lampeter, comprising a useful stone-built and Carnarvon-shed Dwelling-house, with Parlour, Kitchen, Back-kitchen, Dairy, and 2 Bedrooms, Out-kitchen, and Cart-house with loft over, Barn and Stable, Cart-house and Cow-houses, together with the several Inclosures, as set forth in the following schedule, of useful and improvable Meadow, Pasture, and Arable Land, with the Plantation thereon, held with other property by Mr. David Thomas, as yearly tenant, except No. 49, which is in hand.					
No. on Plan	Description	Quantity A. R. P.	No. on Plan	Description	Quantity A. R. P.
1017	Caequarry	5 1 8	1033	Homestead, &c.	0 1 20
1021	Cae gorrallwyd Bach	1 3 30	1034	Caebach	0 4 21
1022	Caeuysan	3 1 27	1035	Llithrionion	0 3 27
1023	Caeuysallan	1 1 24	1036	Cae'r obolawr	4 2 34
1024	Caeuysallan	1 0 27	1037	Caeuysallan	4 1 17
1025	Caeuysallan	1 1 20	1038	Cae'r ydd	3 8 14
1026	Wangwrol	2 0 27	1039	Caeuysallan	4 0 25
1027	Wangwrol	4 2 0	1040	Caeuysallan	2 0 0
1028	Caeuysallan	1 0 8	49	Inclosure allotment	43 3 24
1029	Caeuysallan	0 3 20	49	Plantation (in hand)	
1030	Caeuysallan	2 1 22			
1031	Part of Caeuysallan	2 2 30			
1032	Caeuysallan	1 2 8			
					Total 4 37 3 28
The Land Tax on this lot has been released.					

GELLIWROL

Yr elfennau yn yr enw yw 'celli' sef llwyn o goed neu goedwig fechan a 'gwrol' sef eofn; gwyg; grymus; rhinweddol. Mae 'gwrol' yn digwydd, yn ogystal, fel enw yn dynodi gŵr dewr. Mae enwau'r caeau a nodir ym manylion yr arwerthiant yn dangos bod gwaith plannu coed sylweddol ar y gweill yno yn 1887. Ac mae caeau Gelliwrol wedi eu rhifo yn ôl trefn rhestrau'r degwm plwyf Pencarreg. Mae'n amlwg bod gweundir yn nodwedd ar yr eiddo (Waunganol, Waungota); cyfran o'r tir yn gerigog (Caequarry, Caegarreglwyd); cyfran o'r ddaear yn dir pori (Cae-glas); cyfran o'r tir ar lethr (Llethr-bach Isa) chyfran yn y pant (Cae-pant). Mae enwau dau o'r caeau (Cae'r efel, Cae'r efel fawr) yn coffáu swydd hollol hanfodol i fywyd cefn gwlad.

ar ocsiwn yng ngwesty'r Llew Du, Llanybydder, ar 29 Mehefin 1887.

Hawliai'r ddogfen hon le anrhydeddus yn yr arddangosfa oherwydd roedd Capel Bethel ei hun ymhlith yr eiddo a oedd ar werth. Yn ôl y manylion gwerthu roedd y safle ar un adeg yn rhan o fferm Tancoedeiddig a'r adeilad o gerrig dan do llechi yn cynnwys galeri. Roedd lle i gynulleidfia sylweddol yn y capel ynghyd â thŷ byw clodwiw. Nodir bod y Capel wedi'i osod ar lês i'r ymddiriedolwyr am 99 mlynedd er Mawrth 1859 ar rent o swllt y flwyddyn.

Gan fod ffermydd ynghyd â chaeau unigol yng nghyffiniau'r capel ar werth yn ocsiwn 1887, byddaf yn troi yn ystod y misoedd nesaf at rai enwau ac elfennau a ddenodd fy sylw i'n benodol.

Wrth drafod ac ystyried, cofiwn eiriau Tudur Dylan yn ei gerdd 'Gorwelion':

Roedd enwau i gaeau gynt,
a gwraidd i'n geiriau oeddynt,
enwau ar goll yn nhro'r
gwynt...

CLYNYGASEG UCHA

Enw diddorol yw Clynygaseg Ucha. Ystyr 'clyn, clun' yw dôl, gwaun neu brysglwyn. Mae'n air sydd wedi ei fenthycu o'r Wyddeleg ac yn digwydd yn gyffredin yn elfen mewn enwau lleoedd yn yr ardal hon. Dyw hynny ddim yn syndod o gwbl o gofio am ddylanwad y Gwyddelod ar draws yr ardal yn y canrifoedd cynnar.

Mae'n gyffredin iawn gweld enw creadur yn elfen mewn enw cae a bydd cyfle i fanylu ar arwyddocâd yr elfen 'caseg' a chreaduriaid eraill mewn ysgrif arall yn y dyfodol.

CAE TRYAL

Mae tarddiad yr elfen 'cae' yn wahanol i 'clyn', a'i ystyr hefyd yn wahanol. Tarddiad Brythonig sydd i 'cae'. Felly mae'n air Cymraeg o'i wreiddyn. Gall ddynodi gwrych neu glawdd a hefyd tir sydd wedi'i amgáu â gwrych. Weithiau mewn enwau caeau mae 'cae' wedi ei gyfuno â 'clyn' fel yn yr enw Cae Clyn Meddyg yn Llanllwni. Mae'r olyniad hwn yn awgrymu fod natur y tirwedd wedi newid a bod angen ychwanegu 'cae' fel esboniad er mwyn nodi bod y tir wedi'i amgáu bellach yn hytrach na'i fod yn rhosdir agored fel cynt.

Mae'r elfen 'tryal' wedi cael sylw gan Syr Ifor Williams sy'n ei esbonio fel talfyriad o 'petryal' sef 'pedair

ochr'. Ac mae pedair ochr i'r cae hwn!

CLWT Y DEAL

Dynodi darn o dir a wna 'clwt'. Mae'n elfen reit gyffredin mewn enwau lleoedd: Clwt-y-bont, y Clytiau poethion.


Mae'r ail elfen 'deal' yn air benthycu o'r Saesneg ac mae'n cyfeirio at goed pin neu ffyr. Mae'r un elfen yn digwydd yn 'Llwyn-dêl' ger Pont-rhyd-y-groes, Ceredigion, a cheir 'Fron-ddêl' yng Nghwmystwyth.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoeddymru.org

Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion



C.Ff.I. Llanwenog yn ennill y Parti Cerdd Dant [uchod] a'r Meimio i Gerddoriaeth [isod] yn Eisteddfod y Sir.



Beca Jenkins, Hafan y Cwm, Cwmsychpant, aelod o C.Ff.I. Pontsian a ddaeth yn 3ydd yn Llefaru 13 oed neu Iau yn Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.



Elliw a Hedydd, C.Ff.I. Bro'r Dderi yn ennill y ddeuawd a Gethin Morgan yn 3ydd yn Llefaru 21 oed neu Iau yn Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion





Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel helo blant, sut ydych chi? Mae mis Tachwedd wedi cyrraedd eleni eto ac mae noson Guto Ffowc yn agosau! 'Dw i wrth fy modd yn gweld y tân gwyllt ar noson Guto Ffowc ac mi fydda i a'm ffrindiau i gyd yn brysur iawn yn creu coelcerth enfawr. Ydych chi'n hoffi gwyllo tân gwyllt? Ble fyddwch chi'n mynd i wyllo tân gwyllt eleni? Cofiwch blant, mae'n bwysig i chi fod yn ofalus ar Noson Guto Ffowc gan fod tân gwyllt yn gallu bod yn beryglus iawn. Rhaid cofio gwisgo menyg ac aros yn agos iawn i'ch rhieni. Cofiwch hefyd i fwynhau!

Bu nifer ohonoch chi'n brysur iawn yn ystod y mis yn lliwio llun coeden yr Hydref ac roedd ôl ymdrech i'w weld ym mhob un o'r lluniau. Da iawn chi gyd - penigamp! Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gystadlu yn enwedig i Holly Ann Davies o Graig Cefn Parc ac i Gweno Jones o Lanybydder am luniau taclus. Roedd rhain i gyd yn lluniau lliwgar a gwyh. Ond ar y brig y mis hwn mae Adele Rees, 6 Highmead Terrace, Llanybydder. Llongyfarchiadau mawr i bawb.


Ewch ati nawr i liwio llun y tân gwyllt! Danfonwch nhw ataf i cyn dydd Llun, Tachwedd 23ain.



Enillydd
ymis!

Adele
Rees

Ariennir yn rhannol gan **Lywodraeth Cymru**



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Clwb Hoci Llanybydder

Mae'r Tymor newydd wedi dechrau ac mae'r Tîm Cyntaf wedi cael dechreuad prysur iawn o dan Gaptieniaeth Carys Wilkins a Claire Richards, yr Is-Gapten.

Dechrau mis Medi bu'r Tîm Cyntaf yn chwarae yn rownd gyntaf y Cwpan Sialens yng Nghaerfyrddin a chafwyd gemau arbennig gyda Llanybydder yn ennill o 4 gôl i 1 yn erbyn ail dîm Caerfyrddin ac ennill o 9 gôl i ddim yn erbyn 5ed Tîm yr Eglwys Newydd, Caerdydd.

Yn y Twrnamaint ar ddechrau'r tymor ym mis Medi cafwyd gemau cyfartal di-sgôr yn erbyn Llandysul, Crymch a Chastell Newydd Emlyn. Chwaraewyd y gêm gynghrair gyntaf oddi cartref yn Aberystwyth yn erbyn Bow Street. Cafwyd gêm agos iawn gyda'r tîm cartref yn sgorio gôl yn gynnar yn y gêm ond er waetha ymdrech a chwarae deheuig iawn Llanybydder, fel hynny arhosodd y canlyniad tan y diwedd. Y Sadwrn canlynol roedd gêm gartref gyda Llanybydder yn erbyn Abergwaun ond yn anffodus doedd dim tîm gan yr ymwelwyr ac felly bydd y gêm hon yn cael ei hail drefnu. Dydd Sadwrn cyntaf hanner tymor yr ysgolion teithiodd Llanybydder i Aberteifi i chwarae yn erbyn Castell Newydd Emlyn. Mewn gêm galed ac agos iawn colli fu hanes y tîm o 2 gôl i 1 gyda Claire Richards yn sgorio gôl o gornel gosb. Chwaraewraig y gêm oedd Sioned Williams.

Nos Sadwrn Hydref 24ain cynhaliwyd Noson Wobrwyo Hoci Cymru yn Y Dyffryn, Bro Morgannwg a da oedd gweld un o'n chwaraewyr mwyaf gweithgar yn cael ei gwobrwyo. Mae Lleucu Ifans yn chwaraewraig ifanc a ddechreuodd chwarae gyda thimau dan 13 a dan 16 y Clwb. Mae erbyn hyn yn Gôl-geidwad i'r Tîm Cyntaf. Mae ei hymrwymiad i'r ymarferion, i'r hyfforddi, i'r trefnu a'r chwarae wedi bod yn ddi-ffael dros y blynyddoedd. Mae Lleucu wedi bod yn Llysgennad Iau arbennig i'r Clwb. Mae'n hyfryd cael cyhoeddi iddi ddod i'r brig yn y Noson Wobrwyo Genedlaethol hon fel Llysgennad Iau y Flwyddyn. Rydym fel Clwb yn falch ac yn browd iawn o Lleucu a dymunwn bob llwyddiant iddi i'r dyfodol. Mae'r ymarferion i'r Timau Dan 13 a Dan 16 a'r Tîm Cyntaf bob nos Fercher ar yr astro yn



Llambed. Estynnir croeso cynnes iawn i bawb. Mae Twrnamaint nesaf y Tîm Dan 16 ddydd Sul Tachwedd 8fed ac mae gêm nesa y Tîm Cyntaf nos Fercher Tachwedd 4ydd yn Llambed am 7.00 o'r gloch yn erbyn Tregaron. Bydd y Tîm Cyntaf yn chwarae gartref yn Llambed yn erbyn Crymch ar Dachwedd 28ain am 11.00 o'r gloch. Dewch i gefnogi eich Clwb hoci lleol! Dyma lun o Lleucu Ifans yn ennill gwobr Llysgennad Iau y Flwyddyn.

Digwyddiadau lleol



Swyddogion cangen Llanybydder o Diabetes UK Cymru, Betty Jones (Trysoryddes), Jack Jenkins (Cadeirydd) a Bet Davies (Ysgrifenyddes) yn cyflwyno sicc am £2500 yn ystod y cyngerdd i Dai Williams o Diabetes UK Cymru at waith ymchwil i glefyd y siwgr.



Huw Jenkins o Lanwnnen a gododd £4150 ar ôl cerdded yr holl ffordd o Ynyslas at Bont Aberteifi ar hyd llwybr arfordir Ceredigion, taith o 62 milltir mewn 22 awr. Cyflwynwyd sicc gwerth £4150 i Urtha Felda, Swyddog Datblygu Lleol MS Cymru at waith ymchwil i ddod o hyd i ffordd o wella'r clefyd MS. Er bod y sicc wedi ei chyflwyno, derbynir arian o hyd ar gyfer yr achos gwerthfawr yma. Hoffai Huw ddiolch i bawb am ei noddi ac am bob cymorth a chefnogaeth.

Wedi meddwl hysbysebu yn eich papur bro?
Ceir prisau rhesymol iawn gan ddechrau gydag
hysbyseb bach yn

£10 yn unig,

a dim ond £60 am ddeg ohonynt.
Gwerthfawrogi eich cefnogaeth.



**Ffair Nadolig
Christmas Fayre**

**Dydd Sadwrn 28 Tachwedd
Saturday 28 November**

12 - 4pm

Neuadd y Celfyddydau, Campws Llambed
Arts Hall, Lampeter Campus

Stondinau • Crefftau • Arddangosfeydd • Gweithgareddau
Grotto Siôn Corn £2

Stalls • Arts & Crafts • Exhibitions • Activities
Santa Claus Grotto £2

Croeso cynnes i bawb - A warm welcome to all

DIABETES UK
CARE. CONNECT. CAMPAIGN.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

01570 424704
a.milcoy@uwtsd.ac.uk

COED NADOLIG PARCYRHOS

Coed Nadolig safonol
wedi eu tyfu ar dir
Parcyrhos.

Profiad arbennig wrth
ddewis eich coeden yn
syth o'r cae.

Chi sy'n dewis, ni sy'n ei thorri.
Gwahanol fathau a maint ar gael.

Cysylltwch â
Gareth neu
Wendy

01570 434 393
07875 475 961



Ar fore dydd Sul braf ddechrau mis Tachwedd
cynhaliwyd Ras Hwyl Ysgol Llanwenog. Daeth
tyrfa dda i redeg gan fod y tywydd mor braf. Dyma
lun o enillwyr yn adran y plant a'r oedolion. Mi
fydd y canlyniadau yn Clonc y mis nesaf.



Hanna Davies, C.F.F.I. Llanwenog
yn ennill Llefaru 13 oed neu Iau
ac 2il yn Unawd 16 oed neu Iau yn
Eisteddfod Sir C.F.F.I. Ceredigion.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305
07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.
Os nad ydych yn cadw llythyr gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

Diwrnod T. Llew Jones ym Mro Pedr



Daeth disgyblion campws cynradd Ysgol Bro Pedr i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriad o lyfrau T. Llew Jones i ddathlu canmlwyddiant ei enedigaeth a diolch i bawb am y fath ymdrech. Dyma fuddugwyr gwisg ffansi pob dosbarth gyda'u tystysgrifau.

S4C



35 DIWRNOD

9.00

8 Tachwedd

Rhyw, twyll, a throsedd...
diwrnod arferol o waith.

Noddir gan

**Slater
Gordon**
lawyer

#35Diwrnod
s4c.cymru